Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

# Cynllun drafft 10 mlynedd ar gyfer y gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru

## Cynulleidfa

Mae'r cynllun drafft hwn yn benodol ar gyfer unigolion sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol dros addysg neu ofal plant yn y blynyddoedd cynnar (plant 0 i 7 oed), yn y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir. Mae hyn yn cynnwys rheolwyr ac ymarferwyr gofal plant a'r blynyddoedd cynnar, gwarchodwyr plant, arweinwyr a chynorthwywyr grwpiau chwarae a chlybiau tu allan i oriau ysgol, ymarferwyr Dechrau'n Deg, yn ogystal â chynorthwywyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen. Mae hefyd yn berthnasol i'r rheini sy'n ymgymryd â rôl arweinyddiaeth mewn addysg a gwasanaethau plant, gan gynnwys consortia, awdurdodau lleol a phenaethiaid, yn ogystal â sefydliadau chwarae a gofal plant.

## Trosolwg

Yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymo i ymgynghori ar yr  ymagwedd gywir ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru o ran isafswm lefelau cymwysterau, arweinyddiaeth graddedigion, datblygiad proffesiynol parhaus a llwybrau gyrfa.

Mae'r cynllun drafft hwn yn nodi ein cynllun strategol 10 mlynedd arfaethedig ar gyfer y gweithlu hwn. Mae'r cynllun drafft hefyd yn ymateb i argymhellion ynglŷn â hyfforddiant a'r gweithlu o ddau adroddiad annibynnol: *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen), dan arweiniad yr Athro Iram Siraj ac *Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar* (Adolygiad Graham), dan arweiniad yr Athro Karen Graham.

## Camau i'w cymryd

Hoffem gael barn ar y cynigion a nodir yn y cynllun drafft hwn. Ymatebwch i'r cwestiynau a ofynnwyd yn ymgynghoriad y cynllun drafft hwn drwy gwblhau a dychwelyd y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad. Mae'r ffurflen ymateb ar gael drwy'r ddolen isod.

Mae hefyd croeso i randdeiliaid fynychu un digwyddiad ymgynghori a fydd yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau a gynhelir drwy gydol yr hydref. I gael mwy o wybodaeth am y digwyddiadau hyn, cysylltwch â thîm y Blynyddoedd Cynnar.

## Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau a'r Adran Cymunedau a Threchu Tlodi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk

## Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

## Dogfennau perthnasol

*Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (2013); *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (2014); *Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar* (2014)

© Hawlfraint y Goron Medi 2014
WG22439

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair y Gweinidog | 4 |
| Cyflwyniad | 6 |
| 1. Arweinyddiaeth | 18 |
| 2. Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel | 30 |
| 3. Gwella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol | 36 |
| Trosolwg o'r cynigion a'r llinell amser | 49 |

# Rhagair y Gweinidog

Fel y nodwyd y llynedd yn y Cynllun y Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, ein huchelgais yw i bob plentyn yng Nghymru gael dyfodol disglair. Rydym yn cydnabod bod gan y rhai sy’n addysgu ac yn gofalu am ein plant ieuengaf swyddogaeth hanfodol i’w chyflawni o ran ein helpu i gyrraedd y nod hwn. Rydym yn cydnabod bod addysg, gofal plant a chwarae o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn arwain at ddeilliannau gwell i blant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Drwy’r ymgynghoriad hwn, rydym yn gofyn am safbwyntiau ar ein cynllun drafft i gefnogi a datblygu ein gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae.

Mae’r cynllun yn cynnig cynigion dan dair thema allweddol: uwchsgilio’r gweithlu presennol; denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel; a datblygu arweinwyr ac arweinwyr y dyfodol yn y sector. Mae’n rhaid i ni sicrhau bod pawb sy’n gofalu am ein plant ifanc yn meddu ar y sgiliau a’r cymwyseddau angenrheidiol i gefnogi plant i ddatblygu’n gorfforol, yn gymdeithasol, yn emosiynol ac yn wybyddol.

Yn aml, nid yw swyddogaeth bwysig gweithwyr y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae o ran darparu amgylchedd diogel ac ysgogol i’r plant y maent yn gofalu amdanynt yn cael ei gwerthfawrogi ddigon. Rydym yn dymuno codi statws y proffesiynau hyn. Mae’r ddogfen hon yn nodi sut rydym yn bwriadu symud ymlaen o’r sefyllfa rydym ynddi nawr i ble rydym yn dymuno bod ymhen 10 mlynedd: yn gweithio tuag at sector sy’n uchel ei barch, sy’n cael ei arwain yn dda, sy’n gallu recriwtio ymgeiswyr o ansawdd uchel a chadw gweithlu medrus sy’n cyflawni dysgu proffesiynol parhaus yn ymarferol.

Ein gweledigaeth yw i’r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fod yn yrfa o ddewis, i ddarpar newydd-ddyfodiaid deimlo bod ganddynt wybodaeth am yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y sector ac yn y gweithlu plant ehangach. Rydym yn dymuno denu newydd-ddyfodiaid â’r wybodaeth, y sgiliau a’r ymddygiadau priodol i ddarparu gofal, addysg a chyfleoedd chwarae o ansawdd uchel i blant.

Mae angen i ni sicrhau bod hyfforddiant a chymwysterau’n hygyrch ac yn cynnig y paratoad gorau posibl i’n gweithlu, gan eu helpu i ddeall yn llawn sut mae plant yn dysgu a datblygu, gan eu galluogi i strwythuro gweithgareddau, amser ac amgylcheddau i gefnogi plant i ddatblygu i’w potensial llawn.

Rydym yn dymuno cefnogi’r gweithlu presennol i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i wneud cynnydd yn eu gyrfaoedd a chael mynediad at fwy o gyfleoedd cyflogaeth. Am hyn, byddwn yn disgwyl i’r rhai sy’n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i fod yn ddysgwyr rhagweithiol yn eu rhinwedd a gallu dangos eu bod wedi bod yn cyflawni rhaglen o ddysgu.

Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i ddatblygu gweithlu dwyieithog, gan alluogi rhieni/gofalwyr i gael mynediad at ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn bwriadu annog y rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg a chynnig hyfforddiant i gynyddu hyder gweithwyr mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg wrth ddefnyddio Cymraeg sylfaenol yn eu trefn arferol o ddydd i ddydd.

Wrth i ni geisio bodloni ein dyheadau hirdymor ar gyfer gweithwyr y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru, rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn hinsawdd ariannol anodd sy'n arwain at gyfyngiadau sylweddol o ran cyllideb. Mae angen i ni wneud penderfyniadau doeth am sut y gallwn fuddsoddi orau yn yr adnoddau sydd gennym a dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a symleiddio prosesau lle y gallwn er mwyn gwneud mwy gyda llai.

Mae ein cynlluniau ar gyfer sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn uchelgeisiol ond yn hanfodol os ydym yn dymuno newid ansawdd y gofal rydym yn ei gynnig i'n plant a gwireddu potensial y gweithlu ymroddgar hwn yn llawn. Croesawn eich safbwyntiau ar y cynigion a gyflwynir yn y cynllun drafft hwn ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i wireddu'r uchelgeisiau hyn.



Huw Lewis AC

**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**



Lesley Griffiths AC

**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

# Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn egluro cwmpas y *Cynllun 10 mlynedd drafft ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru*. Mae'n gofyn cyfres o gwestiynau i ddarganfod pwy sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynigion a nodir yn adrannau dilynol y cynllun, yn disgrifio'r hyn rydym yn ei wybod am y sefyllfa gyfredol o ran cymwysterau a gofynion y gweithlu ac yn cyflwyno'r achos dros ddull strategol a hirdymor o ddatblygu'r gweithlu ar gyfer y sector hwn. Caiff yr adran ei chloi trwy nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o ran ble rydym yn dymuno i'r gweithlu hwn fod ymhen 10 mlynedd.

## Pwy yw ein gweithlu blynyddoedd cynnar?

Mae'r cynllun hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gefnogi unigolion sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol am addysg neu ofal plant yn y blynyddoedd cynnar (plant 0 i 7 oed). Bydd y grŵp hwn yn cael ei ddisgrifio trwy gydol y cynllun hwn fel ein **gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae craidd**. Rydym yn deall y bydd rhai gweithwyr proffesiynol yn y gweithlu hwn hefyd yn gofalu am blant wyth oed a hŷn, ond bydd y cynigion yn y cynllun hwn yn cael eu cyfeirio at sicrhau deilliannau gwell i blant yn y blynyddoedd cynnar.

Mae gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae craidd yn cynnwys amrywiaeth o alwedigaethau yn gweithio ar draws sbectrwm o leoliadau. Nodir y rhain yn Ffigur 1 (gweler tudalen 8). Rydym yn gwybod bod anghenion y rhai sy'n gweithio yn yr amrywiaeth o ddarpariaeth ar draws y sector yn debygol o fod yn wahanol. Nid yw'r cynllun hwn yn ceisio mabwysiadu un ateb sy'n addas i bawb yn y gweithlu. Yn hytrach, ei nod yw teilwra cynigion i anghenion pob rhan o'r sector, gan sicrhau bod y gweithlu cyfan yn symud tuag at yr un nod o ddarparu addysg a gofal o ansawdd uwch i blant ifanc.

Rydym hefyd yn dymuno cydnabod **gweithlu ehangach** o weithwyr proffesiynol a allai fod yn gysylltiedig â theulu yn ystod blynyddoedd cynnar bywyd plentyn: bydwragedd, ymwelwyr iechyd, therapyddion lleferydd ac iaith neu weithwyr cymdeithasol i enw dim ond rhai. Fel y nodwyd gennym yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (Llywodraeth Cymru, 2013), rydym yn dymuno cael gweithlu wedi ei hyfforddi'n dda, hynod fedrus, sy'n cael ei gefnogi ac yn cydweithio gan fabwysiadu dull Tîm o Amgylch y Teulu.[1] Trafodir llawer o agweddau ar ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu yn y gweithlu ehangach hwn mewn cynlluniau eraill, gan gynnwys *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu* a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles

[1] Tîm o Amgylch y Teulu: Grwpiau amlasiantaeth sy'n cynnwys dau neu fwy o bartneriaid ac yn sicrhau dull teulu cyfan o wella deilliannau i deuluoedd ac aelodau teuluoedd gan nodi ac adeiladu ar gryfderau'r teulu. Disgwylir i Dîm o Amgylch y Teulu gymryd anghenion y teulu cyfan i ystyriaeth a chynnwys cydgysylltiad asiantaethau lluosog wrth ddarparu gwasanaeth di-dor i'r teulu unigol. Fel rheol, ceir gweithiwr allweddol sy'n brif bwynt cyswllt i'r teulu ac yn gyfrifol am gydgysylltu'r mewnbynnau a'r gefnogaeth gan weithwyr proffesiynol eraill. Nod Tîm o Amgylch y Teulu yw dod â'r bobl gywir o'r asiantaethau cywir ynghyd er mwyn sicrhau bod teulu'n derbyn y cyngor, y cymorth a'r gefnogaeth gywir mewn ffordd brydlon.

(Cymru) 2014.[2] I weithwyr iechyd proffesiynol, mae gwaith datblygu'r gweithlu yn cael ei gyflawni drwy'r broses cynllunio tymor canol integredig dair blynedd o ran byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau. Hefyd, trwy *Gweithio'n wahanol - gweithio law yn llaw* (2012), mae gan GIG Cymru fframwaith ar waith ar gyfer datblygiad sefydliadol sy'n amlygu'r angen am weithlu iechyd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.[3]

Rydym yn dymuno gweld dull mwy cydgysylltiedig ar draws gwasanaethau i blant wrth i ni weithio gyda'n gilydd i wella deilliannau i'n plant ieuengaf. Er mwyn cefnogi hyn, rydym wrthi'n datblygu **fframwaith deilliannau'r blynyddoedd cynnar** a fydd yn ein helpu i ddeall lle mae ein polisïau a rhaglenni blynyddoedd cynnar yn gwneud gwahaniaeth. Bydd hefyd yn helpu i nodi lle mae angen rhagor o welliant a ble y bydd angen i ni flaenoriaethu yn y byrdymor, y tymor canol a'r hirdymor. Rydym yn gobeithio y bydd fframwaith deilliannau hefyd yn sicrhau manteision ychwanegol, ar lefel genedlaethol a lleol, gan gynnwys:

- gwasanaethau cydweithredol gwell
- nodi meysydd i'w gwella
- dull unedig o gynllunio, darparu a gwerthuso
- defnydd gwell o dystiolaeth, dulliau a phrosesau
- help i ganolbwyntio adnoddau ar weithgarwch y dangoswyd ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar y deilliannau ar gyfer y blynyddoedd cynnar.

Bydd fframwaith deilliannau'r blynyddoedd cynnar yn destun ymgynghoriad agored ym mis Hydref 2014 a byddem yn annog y rhai sy'n ymwneud â'r gweithluoedd blynyddoedd cynnar craidd ac ehangach i lunio datblygiad y fframwaith hwn mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru.

Bydd hwn yn fframwaith cyffredinol ar gyfer y blynyddoedd cynnar. Bydd fframwaith deilliannau cyfun ar gyfer rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg hefyd yn cael ei lansio ym mis Hydref 2014.  Er bod y fframwaith hwn yn ehangach o lawer, mae'r blynyddoedd cynnar yn thema allweddol iddo. Bydd deilliannau a dangosyddion pob un o'r fframweithiau yn alinio i sicrhau cyffredinedd.

Yn yr un modd, bydd datblygu **fframwaith datblygu ac asesu'r blynyddoedd cynnar** yn cynnig ffordd bwysig o gefnogi dull cenedlaethol cyson o asesu, olrhain a monitro cynnydd datblygiadol plant yn rhan o'r agenda blynyddoedd cynnar ehangach i godi safonau mewn addysg a gofal y blynyddoedd cynnar.


---

[2] *Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu*, (Llywodraeth Cymru, 2012). http://wales.gov.uk/topics/health/publications/socialcare/guidance1/services/?lang=cy
Gwnaed y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn gyfraith yng Nghymru ar 1 Mai 2014. Am ragor o wybodaeth, gweler: http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/social-services/?lang=cy.

[3] *Gweithio'n wahanol – gweithio law yn llaw*, (GIG Cymru, 2012). http://wales.gov.uk/topics/health/publications/health/strategies/working/?lang=cy

**Ffigur 1: Y gweithlu gofal plant a chwarae blynyddoedd cynnar craidd**

**Fesul lleoliad**




Gellir darparu **Dechrau'n Deg** a'r **Cyfnod Sylfaen** mewn amrywiaeth o leoliadau.

**Fesul galwedigaeth**

**Gofal plant a'r blynyddoedd cynnar**

- Gwarchodwr plant
- Ymarferydd cynorthwyol
- Ymarferydd/goruchwylydd
- Rheolwr/arweinydd

**Chwarae a gofal y tu allan i oriau ysgol**

- Gweithiwr chwarae
- Gweithiwr chwarae cyfrifol
- Ceidwad chwarae
- Swyddog chwarae

**Ysgolion**

- Aelodau staff cymorth dysgu
- Cynorthwy-ydd addysgu lefel uwch
- Athrawon
- Athrawon cynghorol

Mae deddfwriaeth ddiweddar Llywodraeth Cymru wedi paratoi'r ffordd ar gyfer cyfleoedd pellach i ddatblygu a hyfforddi'r gweithlu o ran chwarae. O gofio pwysigrwydd chwarae ym mywydau plant a'i fanteision o ran twf yn natblygiad gwybyddol, corfforol, cymdeithasol ac emosiynol plant,[4] mae Llywodraeth Cymru wedi ei gwneud yn **ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae i blant yn eu hardaloedd**.[5] Bydd y canllaw sydd ar y gweill, *Cymru: Creu Cyfle i Chwarae:* (2014) yn nodi'r hyn y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud i sicrhau a datblygu'r gweithlu chwarae yn eu hardaloedd.

Mae'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol iddynt sicrhau'r swyddogaethau rheoli a darparu sy'n angenrheidiol i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol. Mae hyn yn cynnwys cydgysylltu'r asesiad gofynnol o'r meysydd polisi trawsbynciol; datblygiad Cynllun Gweithredu ar Chwarae; a darpariaeth yr agenda chwarae gan weithlu o faint digonol ag adnoddau a chymwysterau digonol.

Ein bwriad yw y dylai unrhyw gynllun 10 mlynedd ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fod yn ddogfen fyw. Er y bydd yn cyflwyno ein cyfeiriad teithio a lefel ein huchelgais, bydd angen hefyd iddo fod yn ddigon hyblyg i allu ymgorffori ac addasu i newid wrth i bolisïau ddatblygu. Byddwn yn ystyried canfyddiadau'r **gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen,** sy'n cael ei gynnal gan WISERD a Phrifysgol Caerdydd, a fydd yn asesu effaith a dulliau gweithredu'r Cyfnod Sylfaen ledled Cymru pan fydd yn adrodd yn y flwyddyn newydd.

Ffactor bwysig o ran llunio elfennau'r cynllun gweithlu hwn fydd canlyniad **adolygiad annibynnol o'r cwricwlwm cenedlaethol a threfniadau asesu yng Nghymru** yr Athro Graham Donaldson. Cylch gwaith yr adolygiad hwn yw cyfleu gweledigaeth eglur a chydlynol ar gyfer addysg yng Nghymru o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried gallu'r gweithlu i ddarparu unrhyw drefniadau newydd. Bydd yr Athro Donaldson yn hysbysu'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am ei ganfyddiadau a'i argymhellion ar droad y flwyddyn a byddwn yn ceisio rhoi sylw i argymhellion perthnasol ar gyfer gweithlu'r Cyfnod Sylfaen a'u hymgorffori. Yn y cyfamser, yn amodol ar adborth o'r broses ymgynghori, byddwn yn parhau i wneud cynnydd ar elfennau arfaethedig eraill a nodir yn y cynllun drafft hwn cyn cyhoeddi fersiwn derfynol ym mis Ebrill 2015.

## Ble mae ein gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cael eu cyflogi?

Er mai nod y cynllun hwn yw diwallu anghenion datblygu'r gweithlu gweithwyr ar draws pob math o ddarpariaeth, mae'r gweithlu'n aml yn cael ei grwpio i'r categorïau o ddarpariaeth a gynhelir a darpariaeth nas cynhelir.

[4] Tim Gill, *The Play Return: A review of the wider impact of play initiatives*, (Children's Play Policy Forum, 2014).
[5] *Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010*, adran 11, *Cyfleoedd Chwarae a Cymru: Creu Cyfle i Chwarae* – (Llywodraeth Cymru, 2012). http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/play/?lang=en

Mae'r **sector a gynhelir** yn cynnwys ysgolion meithrin, cynradd ac arbennig yn bennaf, sy'n derbyn cyllid i ddarparu cwricwlwm statudol y Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 7 oed ac a arolygir gan Estyn, Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru. Y Cyfnod Sylfaen yw polisi addysg y blynyddoedd cynnar blaenllaw Llywodraeth Cymru sy'n hyrwyddo dull datblygiadol, trwy brofiad, yn seiliedig ar chwarae o ddysgu ac addysgu. Cefnogir y gweithlu hwn gan raglen ehangach o ddysgu proffesiynol parhaus ar draws yr ysgol, gan gynnwys ymrwymiad parhaus i ddatblygiad proffesiynol i aelodau staff cymorth ysgolion.

Yn y sector a gynhelir, dylid darllen y cynllun hwn ochr yn ochr â'r 'Fargen Newydd' i gefnogi a chodi statws y gweithlu addysg yng Nghymru, a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ym mis Mehefin 2014, a'r Cynllun Gweithredu ar Staff Cymorth Ysgolion a lansiwyd fis Hydref diwethaf. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i:

- weithio gydag undebau'r gweithlu ysgolion a chyflogwyr i nodi gofynion cymwysterau priodol ar gyfer aelodau staff cymorth dysgu sy'n gweithio ar wahanol lefelau yn yr ystafell ddosbarth

- cysylltu'r gwaith gydag ystyriaeth o'r safonau proffesiynol a/neu alwedigaethol ddylai fod yn berthnasol ar bob lefel ac amrywiaeth y cymwysterau sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer aelodau staff cymorth dysgu gan gynnwys y Brentisiaeth mewn Cefnogi Addysgu a Dysgu

- sicrhau bod y gwaith hwn yn cymryd proffiliau swydd cyfredol y Cyd-gyngor Cenedlaethol i ystyriaeth yn ogystal ag amrywiaeth o dystiolaeth berthnasol arall (adroddiadau a gwaith ymchwil) gan gynnwys y safonau cyfredol ar gyfer Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch. Dylai'r gwaith hefyd geisio datblygu continwwm i alluogi'r aelodau staff cymorth dysgu hynny sy'n dymuno eu cael fod â llwybrau eglur i ddatblygu eu gyrfaoedd

- ystyried a yw'n ddymunol cyflwyno safonau gofynnol ar gyfer cymwysterau i aelodau staff cymorth dysgu sy'n gweithio mewn swyddi penodol ac, os felly, sut y gallai fod angen cyflwyno gofynion o'r fath gam wrth gam. Pan fo hyn yn gofyn i ymarferwyr wella eu lefel o gymwysterau, mae angen rhoi ystyriaeth i sut y gellid gwneud hyn ar gael i'r aelodau staff hynny sydd yn eu swyddi eisoes.

Bydd y gwaith hwn yn cefnogi ac yn sail i ddarpariaeth y cynigion a nodir yn y ddogfen hon, sy'n ystyried y sgiliau a'r galluoedd y mae'n ofynnol i aelodau staff sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaenol feddu arnynt.

Mae’r gweithwyr yn y **sector nas cynhelir** sy’n rhan o’r cynllun hwn yn gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau: mewn darpariaeth breifat, wirfoddol, annibynnol a/neu awdurdod lleol; neu fel gwarchodwyr plant. Efallai y bydd y rhai sy’n gweithio fel gweithwyr chwarae yn cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol, clybiau y tu allan i oriau ysgol, cynlluniau chwarae preifat neu feysydd chwarae antur. Mae’n rhaid i ddarparwyr sy’n cynnig mwy na dwy awr o ofal y diwrnod i blant dan wyth oed gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC). Mae’r corff rheoleiddio hwn hefyd yn nodi cymarebau aelodau staff i blant sy’n amrywio yn ôl oedran y plant yn y lleoliad.

Efallai y bydd lleoliad nas cynhelir yn derbyn cyllid gan awdurdodau lleol i ddarparu Dechrau’n Deg i blant 2 i 3 oed, neu’r Cyfnod Sylfaen i blant 3 i 4 oed, a darperir hyfforddiant a chefnogaeth ychwanegol gan athrawon cynghorol i’r lleoliadau hyn mewn achosion o’r fath. Mae lleoliadau sy’n darparu’r Cyfnod Sylfaen hefyd yn destun arolygiadau Estyn.

Mae heriau i ddarparwyr yn amrywio yng ngweddill y sector nas cynhelir, ond gallent gynnwys gweithredu lleoliadau fel busnesau cynaliadwy, yn enwedig pan fo lleoliadau’n fach ac yn dibynnu’n fawr ar gefnogaeth gan wirfoddolwyr neu bwyllgorau gwirfoddol. Hefyd, mae gofynion o ran cymarebau’n golygu os bydd aelodau staff yn cael eu rhyddhau i dderbyn hyfforddiant bod yn rhaid i aelodau staff ychwanegol gymryd eu lle yn y lleoliad a all arwain at faich ychwanegol o ran cost. I’r gweithlu chwarae, gall fod yn her i aelodau staff astudio ar gyfer cymwysterau os ydynt yn cael eu cyflogi ar sail ran-amser neu dymhorol.

Fodd bynnag, er y gwahaniaethau rhwng seilweithiau lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a’r heriau darparu penodol a allai ddeillio o hyn, hoffem bwysleisio bod y nod o ddeilliannau gwell i blant yn y blynyddoedd cynnar yn gyffredin i’r ddau fath o ddarpariaeth. Mae’r cynigion a nodir yn y ddogfen hon wedi eu teilwra i anghenion penodol pob math o ddarpariaeth, gyda’r nod o sicrhau mwy o gydraddoldeb o ran ansawdd ar draws pob ysgol a lleoliad yng Nghymru.

Fel y dangosodd Ffigur 1, mae gweithlu’r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cynnwys amrywiaeth eang o alwedigaethau a swyddi. Rydym yn defnyddio’r term ‘**ymarferydd**’ yn y ddogfen hon wrth gyfeirio at y gweithlu cyffredinol i gynnwys yr holl swyddogaethau hyn. Pan fo cynnig yn berthnasol i ran benodol o’r gweithlu’n unig, bydd hyn yn cael ei nodi yn y testun.

## Beth ydym ni'n ei wybod am ein gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae craidd?

Mae tua 23,300 o bobl yn gweithio gyda'n plant ieuengaf mewn lleoliadau gofal plant a Chyfnod Sylfaen.[6] Mae mwyafrif y gweithlu rhwng 25 a 40 oed, ac eithrio Gofal Plant y Tu Allan i Oriau Ysgol sy'n cyflogi mwy o bobl dan 25 oed ar hyn o bryd.

Cyflogir mwy o fenywod na dynion yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant, a cheir cyfartaledd o wyth o aelodau staff benywaidd i bob un gweithiwr gwrywaidd ym mhob lleoliad. Mae'r gymhareb hon yn llai eithafol mewn lleoliadau chwarae lle ceir, ar gyfartaledd, rhwng tri a phedwar o ddynion i bob naw menyw.

Ar hyn o bryd, mae cyfran uchel iawn o'n gweithlu yn nodi eu bod yn Wyn Cymreig/Prydeinig, sy'n dangos bod y rhai sy'n darparu addysg a gofal yn annhebygol o adlewyrchu amrywiaeth ethnig plant a theuluoedd ledled Cymru.[7]

Rydym hefyd yn gwybod bod y rhai sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn meddu ar amrywiaeth o gymwysterau ar amrywiaeth o lefelau. Mae Ffigur 2 yn dangos yr amrywiaeth hon o ran lefelau cymwysterau gofal plant perthnasol.[8]

**Ffigur 2: Canran cyfartalog yr aelodau staff a gofnodwyd ym mhob grŵp cymwysterau fesul darparwr**

| **Math o ddarparwr (cyfanswm yr ymatebion: 641)** | **Dim cymhwyster** | **Lefel 2** | **Lefel 3** | **Lefel 4/5 neu uwch** | **Ddim yn siŵr** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofal dydd llawn (136) | 7% | 8% | 67% | 18% | 0% |
| Gofal dydd sesiynol (191) | 11% | 14% | 62% | 12% | 2% |
| Gwarchodwr plant (96) | 17% | 12% | 47% | 19% | 6% |
| Gofal plant y tu allan i oriau ysgol (44) | 19% | 16% | 51% | 12% | 1% |
| Dechrau'n Deg (59) | 2% | 7% | 66% | 25% | 0% |
| Y Cyfnod Sylfaen a gynhelir (49) | 4% | 13% | 40% | 37% | 6% |

[6] Dallimore, D. *The Early Years & Childcare Workforce in Wales: 2012* (Cyngor Gofal Cymru, 2012). Mae'r ffigur hwn hefyd yn cynnwys y 5,800 o gynorthwywyr ystafell ddosbarth yn y Cyfnod Sylfaen.
[7] *Arolwg Gweithlu y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae 2014* (Cyngor Gofal Cymru, 2014).
[8] Nodir cymwysterau gofal plant perthnasol gan Gyngor Gofal Cymru yn ei *Rhestr o'r Cymwysterau Gofynnol i weithio yn y sector blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru* www.cgcymru.org.uk/cymwysterau/.

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae 2014, Cyngor Gofal Cymru. Cwblhawyd yr arolwg hwn gan reolwyr mewn 641 lleoliad ledled Cymru. Gan nad yw pwysoliadau poblogaeth ar gael, mae'r tabl yn nodi cyfrannau sampl. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau. Efallai na fydd y ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. Nid yw is-grwpiau o lai na 30 o ymatebion wedi eu cynnwys yn y tabl: Crèche; Lleoliad chwarae mynediad agored cofrestredig; Lleoliad chwarae mynediad agored nad yw wedi ei gofrestru a lleoliad Cyfnod Sylfaen nas cynhelir wedi ei ariannu.

Ar hyn o bryd, mae pob lleoliad y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae nas cynhelir sydd wedi ei gofrestru ag AGGCC yn destun gofynion staffio ac eraill fel y nodir yn *Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010*. Mae'n rhaid i unigolion cofrestredig roi sylw hefyd i'r *Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir* (SGC) sy'n cynnwys gofynion o ran cymarebau oedolion: plant a chymwysterau.[9] Mae'r gofynion hyn yn amrywio yn ôl categori'r ddarpariaeth, ond maent fel rheol yn caniatáu i leoliad gyflogi cyfran benodol o aelodau staff sydd ar Lefel 3, Lefel 2 neu heb gymwysterau. Oherwydd yr amrywiaeth o ymarferwyr yn y sector, nid yw'r SGC yn nodi cymwysterau penodol y mae'n rhaid eu hennill ar bob lefel ar hyn o bryd, ond yn hytrach maent yn cyfeirio at restr o gymwysterau cymeradwy a gyhoeddir ac a gynhelir gan y ddau gyngor sgiliau sector: Cyngor Gofal Cymru (CGC) a SkillsActive.[10]

I ymarferwyr mewn ysgolion, nid oes unrhyw ofynion cymwysterau statudol ar gyfer aelodau staff cymorth dysgu ar hyn o bryd; fodd bynnag, mae'n un o amodau Grant Refeniw'r Cyfnod Sylfaen bod yr holl ymarferwyr sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 perthnasol neu'n gweithio tuag at un.

Mae gofynion i'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau Dechrau'n Deg yn wahanol eto. Dechrau'n Deg yw rhaglen blynyddoedd cynnar wedi ei thargedu Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant dan bedair oed yn rhai o'r ardaloedd o amddifadedd mwyaf yng Nghymru. Ystyrir bod darpariaeth gofal plant o ansawdd uchel yn gefnogaeth hollbwysig i'r teuluoedd hyn, wedi ei ategu gan wasanaeth ymweliadau iechyd gwell, datblygiad iaith cynnar a mynediad at raglenni rhianta. Dylai ymarferwyr mewn lleoliadau Dechrau'n Deg feddu ar gymhwyster Lefel 3 a dylai arweinwyr/rheolwyr feddu ar gymhwyster Lefel 5.

Fodd bynnag, dim ond safon ofynnol dderbyniol y mae'r SGC a lefelau cymwysterau eraill a argymhellir yn ei chynrychioli - nid ydynt yn adlewyrchu'r dyheadau llawn sydd gennym i'n gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru.

---

[9] Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir (Llywodraeth Cymru, 2012). http://wales.gov.uk/topics/childrenyoungpeople/publications/regulatedchildcare/?lang=cy

[10] Mae Cyngor Gofal Cymru yn cyflawni swyddogaeth y cyngor sgiliau sector, Sgiliau ar gyfer Gofal a Datblygu, yng Nghymru. Mae'r cyngor sgiliau sector yn gyfrifol am ofal cymdeithasol oedolion a phlant a gweithlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Mae'r Cyngor yn gweithio fel cyngor sgiliau sector mewn partneriaeth â Skills for Care yn Lloegr, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon a Chyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban. SkillsActive yw'r Cyngor Sgiliau Sector ledled y DU ar gyfer Hamdden Egnïol, Dysgu a Lles ac mae'n cynnwys saith sector: chwaraeon, ffitrwydd, yr awyr agored, gwaith chwarae, carafanau, gwallt a harddwch.

Ein dymuniad yw cefnogi'r gweithlu i ddatblygu eu harfer yn barhaus. I rai unigolion, bydd y canolbwynt cychwynnol ar gyrraedd Lefel 3 mewn cymhwyster blynyddoedd cynnar perthnasol. Bydd eraill yn dymuno manteisio ar gyfleoedd eraill i gynyddu eu gwybodaeth trwy gymwysterau lefel uwch neu arbenigo mewn maes ymarfer penodol. Rydym yn credu'n gryf mai gweithlu sy'n dysgu'n barhaus ac yn cynyddu eu sgiliau fydd yn y sefyllfa orau i ddarparu lefel uchel o ofal ac addysg i blant.

## Pa mae angen i ni ddatblygu'r gweithlu yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae?

Mae tystiolaeth yn dangos bod addysg a gofal plant cynnar o ansawdd uchel yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i ddeilliannau plant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Fodd bynnag, mae ansawdd y ddarpariaeth hon yn ffactor hollbwysig.

Mae adroddiad *Sound Foundations* Ymddiriedolaeth Sutton yn dod i'r casgliad er bod gan ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar:

> significant potential to narrow the attainment gap and improve outcomes for children, the research evidence is clear that developmental benefits will only be achieved if children are able to attend good quality provision.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod:

> strong evidence that low quality childcare produces either no benefit or negative effects for young children, particularly when children attend for very long hours early in their lives.[11]

Mae'r gweithlu'n ganolog i wella ansawdd gofal y blynyddoedd cynnar. Mae'r astudiaeth *Effective Pre-School and Primary Education* (EPPE) yn pwysleisio pwysigrwydd ansawdd rhyngweithiadau rhwng oedolion a phlant, gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau staff o'r cwricwlwm a sut mae plant ifanc yn dysgu, a sut maent yn cefnogi dysgu plant gartref fel nodweddion o leoliad cyn-ysgol da.[12] Mae plant yn tueddu i wneud cynnydd gwell mewn lleoliadau sydd o'r farn bod datblygiad addysgol a chymdeithasol yn ategu ei gilydd a'r un mor bwysig â'i gilydd, yn enwedig lle mae gan aelodau staff gymwysterau uwch, gan gynnwys rhai athrawon hyfforddedig.

Lle mae aelodau staff yn meddu ar y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau i ddarparu addysg a gofal o ansawdd uchel, gall yr effeithiau ar blant fod yn enfawr, â manteision penodol i blant o gefndiroedd difreintiedig, neu i blant sy'n anabl neu sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA). Er enghraifft, mewn gwaith ymchwil

---

[11] Mathers, Sandra et al, *Sound Foundations:A Review of the Research Evidence on Quality of Early Childhood Education and Care for Children Under Three. Implications for Policy and Practice*, Ymddiriedolaeth Sutton (2014): tud. 4 a 13.

[12] Sylva, K et al, *Effective pre-school and primary education: findings from the pre-school period*, Teaching and learning Research Briefing no.24. (2007).

diweddar gyda theuluoedd ag anghenion uchel, cyfeiriodd rhieni/gofalwyr at ansawdd uchel lleoliadau gofal plant Dechrau'n Deg a nodwyd ganddynt yr effaith gadarnhaol roedd hyn yn ei chael ar eu plant.[13] I blant ag AAA, mae nodi cefnogaeth yn gynnar a'i darparu'n effeithiol yn allweddol er mwyn atal datblygiad anghenion mwy sylweddol yn y dyfodol a hefyd yn sicrhau y gall plant ag AAA wireddu eu potensial.

Wrth i ni geisio datblygu strategaeth ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, rydym yn cydnabod ein bod yn gweithredu mewn hinsawdd economaidd anodd a bod yr amgylchiadau hyn yn annhebygol o newid yn y dyfodol rhagweladwy. Mae'r *Cynllun gweithredu sgiliau* a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu polisi o gyd-fuddsoddi ar gyfer cyflenwi dysgu statws cyflogedig, ôl-19 er mwyn sicrhau system sgiliau gynaliadwy. Bydd hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar gyflogwyr ac unigolion i gyfrannu at gost hyfforddiant.[14] Ochr yn ochr â'r heriau ariannol hyn, mae angen i ni gymryd camau nawr i fuddsoddi yn ein gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru er mwyn sicrhau system gofal plant o ansawdd uchel sy'n gallu cefnogi twf economaidd wedyn trwy alluogi rhieni/gofalwyr i ddychwelyd i'r gwaith. Felly, mae angen i ni ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd a symleiddio prosesau lle y gallwn, i wneud y mwyaf o'r cyllid sydd ar gael i fod o fudd i'r nifer fwyaf o unigolion a gwneud dewisiadau doeth am fuddsoddiad yn ein hymarferwyr.

Trwy ddatblygu sgiliau ein gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, ein nod yn y pen draw yw darparu lefel uwch o addysg a gofal a sicrhau deilliannau gwell i blant yng Nghymru.

## Cynnydd hyd yn hyn

Rydym yn cydnabod bod llawer o gynnydd cadarnhaol wedi ei wneud eisoes i gynyddu gallu a sgiliau'r gweithlu ac rydym yn cymeradwyo ymroddiad ymarferwyr sydd wedi ceisio ehangu eu dysgu, yn aml yn eu hamser eu hunain a chan dalu eu costau eu hunain. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi cefnogaeth sefydliadau aelodaeth gofal plant a chwarae sydd wedi rhoi ein holl raglenni dysgu a datblygu ar waith ar gyfer eu haelodau. Yn yr un modd, gwnaed llawer o waith mewn partneriaeth â llywodraeth leol a chynghorau sgiliau sector i wella'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael i'r rhai sy'n gweithio gyda phlant ifanc. Fodd bynnag, mae mwy o bellter i'w deithio a rhagor o waith i'w wneud os ydym am wireddu ein huchelgeisiau ar gyfer ein plant ieuengaf yn llawn.

---

[13] Ipsos Mori, *Flying Start qualitative research with high need families* (Llywodraeth Cymru, 2013). http://wales.gov.uk/statistics-and-research/national-evaluation-flying-start/?lang=cy

[14] *Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau: Cyflawni'r datganiad polisi ar sgiliau* (Llywodraeth Cymru, 2014). http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/skillsandtraining/policy-statement-on-skills/skills-implementation-plan/?lang=cy

## Y sefyllfa rydym yn dymuno bod ynddi ymhen 10 mlynedd

Mae ein gweledigaeth ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn uchelgeisiol, ond rydym yn teimlo ei bod yn iawn disgwyl y gofal a'r cyfleoedd gorau posibl i blant yng Nghymru. Rydym yn cydnabod y bydd y newidiadau hyn yn cymryd amser ac am y rheswm hwn rydym yn nodi ein disgwyliadau yng nghyd-destun cynllun strategol hirdymor. Mae'r cynllun hwn yn amlinellu ein nodau ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac yn nodi sut rydym yn bwriadu cefnogi'r cyfeiriad teithio hwn.

Ymhen 10 mlynedd, rydym ni eisiau bod â gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae hynod fedrus sydd:

- yn uchel ei barch (gyrfa o ddewis)
- yn deall sut mae plant yn dysgu a datblygu
- yn strwythuro gweithgareddau ac amser i gefnogi pob plentyn i ddatblygu i'w botensial llawn
- yn ddysgwyr rhagweithiol eu hunain
- yn ddwyieithog.

Un o'r heriau sylweddol rydym yn eu hwynebu yw codi'r statws a'r gwerth a neilltuir i ofalu am blant ifanc hyd at lefel galwedigaethau blynyddoedd cynnar eraill lle mae llwybrau gyrfaol wedi eu diffinio'n fwy eglur. Byddwn yn ceisio hybu'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae a hefyd sut y gall y rhain fod yn gamau at yrfaoedd yn y gweithlu plant ehangach. Byddwn yn ceisio denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel, gan gynnwys graddedigion.

Mae gweithio ym maes gofal plant yn golygu llawer iawn mwy na goruchwylio plant yn unig: er y gallai ymarferwyr weithio gyda phlant a theuluoedd mewn ffordd sy'n ymddangos yn ddidrafferth, mae angen iddynt fod yn weithwyr proffesiynol hyfforddedig â lefel uchel o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau er mwyn gwneud hyn yn dda. Rydym o'r farn bod yn rhaid i gymwysterau fod â'r cynnwys gofynnol i alluogi ymarferwyr i gaffael gwybodaeth er mwyn deall datblygiad plant yn llawn a sut i gefnogi hyn orau trwy weithgareddau; cynllunio; a chreu amgylcheddau i gefnogi dysgu a gychwynnir gan blant a dysgu a arweinir gan oedolion trwy chwarae. Rydym yn cynnig cefnogi ymarferwyr i godi eu lefelau sgiliau trwy fynd yn eu blaenau i gymhwyster lefel uwch.

Bydd sefydlu llwybr gyrfaol a rhaglen o ddatblygiad proffesiynol trwy gydol gyrfaoedd yn sicrhau bod ein hymarferwyr yn parhau i ehangu eu sgiliau ac yn gallu arbenigo mewn meysydd ymarfer fel AAA neu ddatblygiad iaith cynnar. Rydym yn gwybod bod dymuniad yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i wella arfer trwy ddysgu a datblygu, felly byddwn yn edrych i ymarferwyr arwain y gwaith o nodi eu hanghenion hyfforddiant a chadw cofnod o'u dysgu; arfer rydym yn dymuno iddo

gael ei ddatblygu ar draws y gweithlu. Er mwyn sicrhau bod dysgu'n hygyrch i bawb, rydym yn cynnig, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosibl, cefnogi darpariaeth leol o hyfforddiant ar amseroedd sy'n cyd-fynd â phatrymau gweithio'r rhai yn y sector a cheisio sicrhau bod hyfforddiant cyson yn cael ei gynnig ledled Cymru. Yn yr un modd, gan fanteisio ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio yn ein rhaglenni Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf, rydym yn credu bod angen i ni annog datblygiad rhwydweithiau lleol i gefnogi datblygiad proffesiynol a rhannu arfer da.

Rydym yn dymuno rhoi'r dewis i rieni/gofalwyr o gael mynediad at ofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Er mwyn cefnogi hyn, byddwn yn ceisio cynyddu gallu yn ein gweithlu o ran sgiliau Cymraeg. Byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau a'u hyder yn y Gymraeg er mwyn cefnogi dysgu plant mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg, yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd wedi nodi angen i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach.

Mae gweddill y ddogfen hon yn cyflwyno'r cynigion hyn yn fwy manwl dan dair thema.

- Arweinyddiaeth.
- Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel.
- Gwella sgiliau a safonau yn y gweithlu presennol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn manteisio ar dystiolaeth ac argymhellion yn ymwneud â gweithlu'r blynyddoedd cynnar o ddau adolygiad annibynnol diweddar: *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen), wedi ei arwain gan yr Athro Iram Siraj (Yr Athrofa Addysg, Prifysgol Llundain) ac *Adolygiad annibynnol o gofrestru, rheoleiddio ac arolygu gofal plant ac addysg gynnar* (Adolygiad Graham), wedi ei arwain gan yr Athro Karen Graham (Prifysgol Glyndŵr). Er bod y ddau adroddiad yn cynnig cyfres o argymhellion hynod amrywiol a chynhwysfawr, y rhai sy'n ymwneud â'r gweithlu a hyfforddiant sy'n cael eu hystyried yn rhan o'r ymgynghoriad hwn ar y cynllun gweithlu 10 mlynedd drafft. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno ein hymateb arfaethedig i'r argymhellion hyn ac yn gwahodd eich safbwyntiau a'ch sylwadau.

# 1. Arweinyddiaeth

## Yr hyn rydym yn dymuno ei weld

Nodwyd buddsoddi mewn arweinyddiaeth fel elfen hanfodol o'n hymgyrch i wella ansawdd gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Ein nod yw gwella sgiliau arweinyddiaeth ymarferwyr unigol ac effeithiolrwydd gweithredol y strwythur arweinyddiaeth. Trwy gefnogi a buddsoddi mewn arweinwyr yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, rydym yn credu y byddwn yn gwella atebolrwydd a'r broses o rannu arfer da ac yn creu diwylliant o broffesiynoli cynyddol.

Nodir tri newid allweddol rydym yn dymuno eu gweld isod.

- Gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn gweithredu fel system hunan-wella – dylai weithio mewn ffordd gydgysylltiedig a rhyng-gysylltiedig sy'n annog cydweithrediad.
- Capasiti a gallu cynyddol ar bob lefel o arweinyddiaeth - strategol, rheoli, ymarferwyr uwch a darpar arweinwyr.
- Cydnabyddiaeth a statws i'n haelodau staff mwyaf cymwysedig a phrofiadol.

## Y dystiolaeth i gefnogi hyn

### Gweithio ar y cyd

Ceir llawer o dystiolaeth ar arweinyddiaeth systemau sy'n awgrymu y gall rhwydweithiau dysgu a rennir gyflawni swyddogaeth bwysig o ran datblygu'r gweithlu. Mewn adroddiad i'r National College for Teaching and Leadership yn Lloegr, mae Iram Siraj a Chee Wah Sum yn hyrwyddo diwylliant o gydweithrediad a rhannu gwybodaeth er mwyn adeiladu gallu arweinyddiaeth yn sector y blynyddoedd cynnar. Maent hefyd yn dadlau y bydd arbedion maint amlwg, yn ogystal ag adeiladu gallu, os bydd lleoliadau'n gweithredu fel clystyrau i rannu gwybodaeth ac adnoddau.[15]

Cydnabyddir pwysigrwydd rhwydweithiau neu bartneriaethau rhwng lleoliadau hefyd fel ffactor allweddol ar gyfer codi safonau ar draws y sector mewn adroddiad diweddar gan y felin drafod, Policy Exchange. Mae'r adroddiad hwn yn argymell sefydlu rhwydweithiau yn seiliedig ar y model Teaching Schools, i helpu arweinwyr y blynyddoedd cynnar i gysylltu â lleoliadau eraill a datblygu eu gweithluoedd. Dewisodd y rhaglen Teaching Schools 100 o ysgolion cynradd ac uwchradd yn Lloegr i rannu eu harbenigedd a'u harfer da gydag ysgolion a meithrinfeydd eraill.[16]

[15] Iram Sriaj-Blatchford a Chee Wah Sum, *Understanding and advancing systems leadership in the early years*, National College for Teaching and Leadership (2013).
[16] Harriet Waldegrave a Lucy Lee, *Quality Childcare: Improving early years childcare*, Policy Exchange (2013).

Yn ei swyddogaeth fel Hyrwyddwr rhaglen flaenllaw Llywodraeth Cymru i godi cyrhaeddiad, Her Ysgolion Cymru, mae Mel Ainscow wedi cyhoeddi pum gwers o waith ymchwil ar gyfer systemau hunan-wella ym maes addysg. Rydym o'r farn bod y pwyntiau hyn yr un mor berthnasol i leoliadau gofal plant.

Gwers 1: Mae gan ysgolion botensial heb ei wireddu i wella eu hunain.
Gwers 2: Mae rhwydweithio'n ffordd o rannu ffyrdd effeithiol o weithio.
Gwers 3: Mae partneriaethau ysgolion yn ffordd rymus o feithrin gwelliannau.
Gwers 4: Mae'n rhaid i arweinyddiaeth ddod o'r tu mewn i ysgolion.
Gwers 5: Mae gan awdurdodau lleol swyddogaethau pwysig i'w cyflawni o ran sicrhau bod hyn yn digwydd.[17]

**Adeiladu gallu arweinyddiaeth a buddsoddi mewn ymarferwyr medrus**

Dylid ystyried pwysigrwydd cydweithredu ochr yn ochr ag ansawdd yr arweinyddiaeth mewn lleoliad. Rydym yn gwybod bod perthynas eglur rhwng cymwysterau aelodau staff lefel uwch ac addysg a gofal o ansawdd uwch i blant ifanc. Fel y mae adroddiad ar weithlu'r blynyddoedd cynnar gan y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus yn ei nodi, mae tystiolaeth bendant yn dangos mai ymarferwyr hynod fedrus yw'r elfen hollbwysig ar gyfer gwella ansawdd y blynyddoedd cynnar.[18]

Pwysleisiodd astudiaeth ddiweddar Sefydliad Nuffield o'r ddarpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed yn Lloegr bwysigrwydd mynediad at arweinyddiaeth raddedig i bob lleoliad. Canfu'r adroddiad bod lleoliadau ag aelod o staff graddedig yn sgorio'n uwch ym mhob mesur ansawdd mewn lleoliadau preifat, gwirfoddol ac annibynnol ac awgrymodd bod arweinyddiaeth raddedig yn gysylltiedig â bwlch ansawdd llai rhwng lleoliadau preifat, gwirfoddol ac annibynnol wedi eu lleoli mewn ardaloedd o amddifadedd a mwy difreintiedig.[19]

## Yr hyn rydym yn argymell ei wneud

Yn yr adran hon, ac yn cymryd cyfarwyddyd eglur o'r dystiolaeth a nodir uchod, rydym yn nodi'r newidiadau yr hoffem eu gweld yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae dros y 10 mlynedd nesaf. Rydym hefyd yn ymateb i argymhellion perthnasol o'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen ac Adolygiad Graham.

---

[17] Mel Ainscow, *Developing self-improving school systems: Five lessons from research*, (Llywodraeth Cymru, Mai 2014).
[18] Graeme Cooke a Kayte Lawton, *For Love or Money: Pay, progression and professionalisation in the 'early years' workforce*, Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (2008), t. 6.
[19] Sandra Mathers a Rebecca Smees, *Quality and Inequality: Do three- and four-year-olds in deprived areas experience lower quality early years provision?*, Sefydliad Nuffield (2014), t. 21.

## Cryfhau arweinyddiaeth strategol

Nod y cynllun gweithlu 10 mlynedd yw cyflwyno gweledigaeth strategol hirdymor ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yng Nghymru. Mae'r strategaeth hon yn cael ei datblygu fel ymateb i gam gweithredu yn *Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* (Llywodraeth Cymru, 2013). Trwy wneud hynny, mae'n bodloni'r argymhelliad canlynol ar gyfer strategaeth gweithlu a nodir yn Adolygiad Graham.

> Argymhelliad 14: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu Cyngor Gofal Cymru i adeiladu ar strategaeth bresennol y gweithlu a'r uchelgais yn Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant i ddatblygu strategaeth y gweithlu ymhellach, fel yr amlinellir yn yr argymhellion llawn.

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi bod yn bartner allweddol yn natblygiad y cynllun gweithlu 10 mlynedd gan gadeirio grŵp cyfeirio allanol a gweithio gyda ni i brofi a datblygu cynigion. Mae'n debygol y bydd yn parhau i gymryd rhan agos yn natblygiad pellach a darpariaeth y cynllun.

Rydym yn ymwybodol y bydd yn hanfodol galw ar arweinyddiaeth ar lefel uchel i oruchwylio gweithrediad a darpariaeth y Cynllun. Bydd **Bwrdd Partneriaeth y Blynyddoedd Cynnar** ar lefel weinidogol yn ystyried sut y gellid bwrw ymlaen â hyn yn fwyaf effeithiol, gan gynnwys sefydlu is-grŵp os oes angen.

Yn ogystal â'r oruchwyliaeth lefel uchel hon, byddwn yn edrych i arweinwyr rhanbarthol mewn consortia addysgol ac arweinwyr gwasanaethau'r blynyddoedd cynnar a phlant mewn llywodraeth leol i ymgysylltu â'r cynigion terfynol a'u hymsefydlu, gan ddarparu cefnogaeth, canllawiau ac adnoddau i'r rhai sy'n cynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Mae eisoes yn ofynnol i Awdurdodau Lleol (ALlau) sefydlu Grŵp Monitro Chwarae â chylch gwaith sy'n cynnwys monitro'r gweithlu chwarae a datblygu a gweithredu cynlluniau i sicrhau digonolrwydd. Rydym yn cynnig gofyn i gonsortia **gyflwyno eu dulliau ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac agenda'r blynyddoedd cynnar yn eu cynlluniau busnes**. Byddwn hefyd yn defnyddio Cynlluniau Gwariant a Darpariaeth y Cyfnod Sylfaen a ddarperir yn rhan o delerau ac amodau Grant y Cyfnod Sylfaen, fel cyfle i ofyn cwestiynau mwy cadarn am ddatblygu'r gweithlu a derbyn gwybodaeth i'n helpu i fonitro cynnydd. Fel cam cyntaf pwysig i symleiddio a chydgysylltu'n well y gefnogaeth sydd ar gael i ymarferwyr, rydym yn cynnig **comisiynu ymarfer mapio o hyfforddiant y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae sydd ar gael ledled Cymru**, gan ein galluogi i fynd i'r afael â bylchau yn y ddarpariaeth.

Ar lefel arweinyddiaeth ysgol, byddem yn cymeradwyo ac yn annog i'r argymhelliad canlynol o'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen gael ei fabwysiadu.

> Argymhelliad 16: Sicrhau bod gan y cydgysylltwyr Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir ddigon o wybodaeth a phrofiad i ddeall yr egwyddorion ac arferion o fewn y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, argymhellir eu bod yn cael eu graddio ar lefel arwain ddigonol (fel aelodau o'r uwch dîm rheoli, dirprwy bennaeth ac ati) er mwyn gwneud penderfyniadau a chefnogi cyfeiriad strategol yr ysgol.

Rydym angen i arweinyddiaeth ysgolion ddeall egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn a sut, os caiff ei ddarparu'n dda, y gall y dull addysg gynnar hwn gael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad trwy gydol gyrfa mewn ysgol. Pan ddeallir hyn yn gywir, mae'r gefnogaeth sydd ar gael i ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen yn debygol o fod yn fwy ac ansawdd y dysgu'n well o ganlyniad.

Yng ngoleuni hyn, rydym hefyd yn cynnig cymryd argymhelliad canlynol yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen i ystyriaeth wrth i ni ailwampio Pecyn Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen.

> Argymhelliad 4: Ystyried hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr o fewn y sector cyfan, gan gynnwys arweinwyr strategol yn y Wlad, consortia, penaethiaid cynradd, staff cynghori, arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir a gwasanaethau i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen. Dylai'r hyfforddiant gael ei deilwra i'r gynulleidfa ac ystyried ei hanes a phrofiadau blaenorol a chynnwys ymchwil sy'n dangos sut y gall gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gefnogi safonau ac effeithio ar dwf cymdeithasol ac economaidd yn gyffredinol.

Er y byddai'r adnoddau i gefnogi'r hyfforddiant hwn yn rhan o gwmpas Pecyn Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen, ac yn cael eu defnyddio gan holl arweinwyr lleoliadau nas cynhelir a ariennir, byddem yn edrych i'r consortia arwain y gwaith o nodi a hyfforddi'r rhai mewn swyddi arweinyddiaeth allweddol. Dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth i gonsortia geisio datblygu darpariaeth arweinyddiaeth dan y Model Cenedlaethol newydd ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

**Cwestiwn 1:** A ydych yn cytuno y dylai fod hyfforddiant gorfodol ar gyfer arweinwyr i ategu eu dealltwriaeth o egwyddorion ac arferion y Cyfnod Sylfaen?

**Sefydlu rhwydweithiau ar gyfer dysgu a rennir a gweithio ar y cyd**

Mae gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae wedi ei wasgaru ar draws sector amrywiol ac yn cael ei gyflogi mewn amrywiaeth eang o leoliadau ac ysgolion. Mae llawer i'w ddysgu o'r amrywiaeth hwn o ran profiad ac rydym yn dymuno helpu i hwyluso cysylltiadau a chyfleoedd gwell ar gyfer dysgu a rennir rhwng lleoliadau. Rydym o'r farn y bydd dull mwy cydgysylltiedig o ran dysgu a datblygu'r gweithlu yn sicrhau bod ansawdd addysg a gofal cynnar yn gwella ar draws y sector cyfan, yn hytrach na mewn pocedi o arfer da yn unig. Bydd galluogi ymarferwyr i arwain y gwaith o adeiladu cymunedau dysgu yn eu galluogi i nodi anghenion hyfforddi penodol a sicrhau y darperir hyfforddiant yn lleol mewn ffordd sy'n gwbl hygyrch ac a fydd yn cyfrannu at system sy'n hunangynhaliol ac yn hunan-wella.

Nodir y weledigaeth hon ar gyfer gweithlu mwy cydweithredol yn nifer o'r argymhellion o'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen.

> Argymhelliad 3: Nodi lleoliadau/ysgolion rhagorol er mwyn cefnogi datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a hyfforddiant pob aelod o staff. Nodi dulliau o rannu arfer gorau rhwng ysgolion a gynhelir a phob lleoliad nas cynhelir ac i'r gwrthwyneb.
>
> Argymhelliad 6: Datblygu hyfforddiant sy'n pwysleisio ac yn egluro datblygiad sgiliau o fewn y Cyfnod Sylfaen. Dylai modelau ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen yn effeithiol gael eu rhannu a'u gwerthuso ym mhob grŵp oedran. Sicrhau bod y modelau a'r enghreifftiau hyn ar gael yn hawdd i ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir (ar-lein a/neu drwy ymweliad efallai).
>
> Argymhelliad 13: Ystyried atgyfnerthu trefniadau pontio drwy hyfforddi'r holl staff dan sylw gyda'i gilydd (staff o bob lleoliad nas cynhelir, Dechrau'n Deg, staff Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 ac ati). Dylai'r hyfforddiant gynnwys ymchwil a gwaith theori cyfredol ynghyd ag enghreifftiau ymarferol o arferion pontio da.
>
> Argymhelliad 19: Hyrwyddo cydberthnasau gwaith agosach rhwng, er enghraifft, staff cynghori a darparwyr Hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) a rhwng darparwyr HCA eu hunain er mwyn cefnogi cysondeb hyfforddiant cychwynnol athrawon ac ansawdd addysgu athrawon sydd newydd gymhwyso (ANGau). Nodi ysgolion a gynhelir lle caiff y Cyfnod Sylfaen ei weithredu'n dda i fyfyrwyr ym weld â hwy a/neu fynd ar leoliadau.

Argymhelliad 21: Egluro a diffinio rôl y 10% o leoliadau nas cynhelir a ariennir sy'n cefnogi athrawon. Dylid sicrhau bod pob lleoliad nas cynhelir a ariennir sy'n gymwys yn derbyn y cymorth hwn a'i fod yn effeithiol. Os oes adnoddau ar gael, dylai'r fath gymorth gynyddu i 20%.

Er y byddem yn cymeradwyo’r holl argymhellion uchod fel rhai hanfodol ar gyfer rhannu arfer da o fewn y sector, y dull rydym yn ei ffafrio yw mynd ymhellach na rhannu arfer da yn y Cyfnod Sylfaen rhwng lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir.

Byddwn yn annog darparwyr HCA i rannu arfer gorau a gweithio ar y cyd ar draws y sector i gefnogi hyfforddiant athrawon o ansawdd uchel a chyson ledled Cymru. Byddwn yn ystyried pa newidiadau sydd eu hangen i’r gofynion mynediad HCA statudol sy’n nodi’r hyn sy’n ofynnol gan ddarparwr HCA er mwyn darparu hyfforddiant effeithiol, gan gynnwys sefydlu trefniadau partneriaeth effeithiol gydag ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Byddwn hefyd yn adolygu’r gofynion sicrhau ansawdd statudol er mwyn sicrhau bod darparwyr HCA yn sefydlu ac yn cynnal eu gweithdrefnau sicrhau ansawdd i gynnwys pob agwedd ar y ddarpariaeth, yn enwedig ansawdd trefniadau hyfforddi, asesu a rheoli.

Er mwyn annog dysgu a rennir a gweithio ar y cyd, rydym yn cynnig cefnogi datblygiad **canolfannau dysgu’r blynyddoedd cynnar** mewn canolfannau o arfer rhagorol cydnabyddedig. I gychwyn, byddai’r canolfannau hyn yn cael eu lleoli mewn lleoliadau Dechrau’n Deg o ansawdd uchel neu leoliadau Cyfnod Sylfaen/ysgolion, ond byddent yn canolbwyntio ar ddenu cyfoeth o brofiad o wahanol fathau o leoliadau, ac o blith gwarchodwyr plant mewn ardal leol, nid ar hybu dysgu o’r rhaglenni penodol hyn yn unig. Byddai’r canolfannau dysgu’n cael eu cydnabod fel canolfannau o arfer effeithiol ac arloesol ac yn gweithredu fel canolfan leol ar gyfer dysgu a datblygu, yn cynnig cyfleoedd ar gyfer hyfforddi a mentora, lleoliadau o ansawdd uchel ac yn gweithredu fel rhwydwaith ar gyfer rhannu arfer da a sbarduno gwelliant.

Byddai’r holl ymarferwyr sy’n gysylltiedig â chanolfan ddysgu yn gallu elwa o arbenigedd ymarferwyr â chymwysterau uwch (Lefel 5), yn ogystal ag Athrawon Cynghorol Dechrau’n Deg a’r Cyfnod Sylfaen. Rydym yn cynnig y dylid egluro **swyddogaeth yr athrawon hyn ac ehangu eu cylch gwaith i ddarparu cefnogaeth i gymaint o ymarferwyr â phosibl**. Byddwn yn ceisio manteisio ar dystiolaeth o Arolwg Thematig Estyn sydd ar fin cael ei gyhoeddi ar effaith yr amser athrawon cynghorol o 10 y cant mewn lleoliadau nas cynhelir a ariennir.

O fewn y canolfannau dysgu, byddai canolbwynt eglur ar ddatblygu’r gweithlu cyfan, boed trwy ddysgu/datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), cymunedau ymarfer i gefnogi’r rhai sy’n uwchsgilio trwy gymwysterau neu ddarparu mentora a datblygiad i ddarpar arweinwyr ac ymarferwyr uwch. Byddai’r hyfforddiant a rennir a gynigir drwy’r canolfannau dysgu yn hwyluso trefniadau pontio gwell rhwng Dechrau’n Deg a lleoliadau eraill nas cynhelir a’r Cyfnod Sylfaen. Nod y canolfannau dysgu fyddai denu gwarchodwyr plant lleol i rannu eu profiad a chymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu.

Rydym yn cynnig profi’r model hwn o weithio ar y cyd ar draws nifer o leoliadau ac ysgolion i gychwyn, gyda’r nod o fireinio a datblygu’r dull hwn ymhellach yn seiliedig ar adborth yn dilyn cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd. Byddai’r rhwydweithiau ysgol i ysgol, lleoliad i leoliad a chymar i gymar wedi eu clystyru o amgylch y canolfannau dysgu yn cael eu hategu gan **rith-adnoddau ar ddysgu a datblygu**, a fyddai ar gael i bob ymarferydd y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae trwy wefan Dysgu Cymru.

**Cwestiwn 2:** A ydych yn cytuno y byddai'r model o ganolfan ddysgu sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun drafft 10 mlynedd yn annog mwy o gydweithio yn y sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae ac yn helpu i gefnogi rhwydwaith sy'n gwella ei hun?

Mae Ffigur 3 yn dangos sut rydym yn rhagweld y bydd y dull cydweithredol hwn yn gweithio’n ymarferol.

**Ffigur 3: Model canolfan ddysgu'r blynyddoedd cynnar**

Nod cyffredinol: gwella sgiliau a safonau ymhlith ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant er mwyn gwella deilliannau i blant trwy fynediad at addysg gynnar a gofal o ansawdd uchel.

**Swyddogaeth oruchwylio**
Consortia
Cydgysylltwyr/arweinwyr gofal plant Cyfnod Sylfaen yr ALl

**Mewnbynnau/adnoddau:**

- Amser athrawon cynghorol.
- Dadansoddiad o anghenion hyfforddi lleol.
- Hyfforddiant ALl ar y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'r Deg.
- Fframwaith ymsefydlu a DPP.
- Hyfforddeion graddedig y blynyddoedd cynnar.
- Cysylltiadau ag ymarferwyr uwch Lefel 5.
- Cymuned o arfer ar gyfer y rhai sydd wedi eu hymrestru ar gyrsiau hyfforddi achrededig.
- Cysylltiadau â rhwydweithiau gwarchodwyr plant lleol a rhwydweithiau ymarferwyr eraill.
- Datblygu adran y blynyddoedd cynnar ar wefan Dysgu Cymru fel ffynhonnell ganolog ar gyfer adnoddau hyfforddi a dysgu ar-lein.

**Canolfan ddysgu'r blynyddoedd cynnar**

**Allbynnau/canlyniadau**

- Sesiynau hyfforddi ar gael yn lleol i ddiwallu anghenion lleol.
- Proses ymsefydlu ar waith ar gyfer pob ymarferydd newydd.
- Cynllun datblygu personol ar waith ar gyfer pob ymarferydd a chynnal Log DPP.
- Llwybr ôl-raddedig i'r gweithlu.
- Hyfforddi a mentora, datblygu darpar arweinwyr.
- Profiad o arfer mewn lleoliadau eraill (gan gynnwys gwarchodwyr plant).
- Lleoliadau o ansawdd â chyfleoedd hyfforddi ac asesu.
- Gwaith ar y cyd gwell trwy ddulliau ysgol i ysgol, lleoliad i leoliad, cymar i gymar.

**Adeiladu gallu arweinyddiaeth**

Ein dymuniad yw i'n gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fod yn ddysgwyr rhagweithiol gan gymryd cyfrifoldeb am eu datblygiad proffesiynol eu hunain. Er mwyn cefnogi ac ysgogi DPP mae angen i ni sicrhau bod llwybr gyrfaol wedi ei ddiffinio yn bodoli ar draws y sector a bod ymarferwyr medrus a galluog yn cael eu hannog i uwchsgilio y tu hwnt i gymwysterau Lefel 3.

Un o argymhellion Adolygiad Graham oedd y dylai rheolwyr pob lleoliad feddu ar gymhwyster lefel uwch:

> Argymhelliad 15: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod rheoliadau yn cael eu diwygio er mwyn mynnu bod arweinwyr pob lleoliad a gofrestrir o'r newydd yn meddu ar gymwysterau lefel 5 priodol o 2018 ymlaen, ac arweinwyr pob lleoliad arall o 2020 ymlaen.
>
> Argymhelliad 16: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i leoliadau mwy (a gofrestrwyd ar gyfer 20 o blant neu ragor) gael rheolwr ychwanegol. Dylai'r rheolwr hwnnw hefyd feddu ar gymhwyster lefel 5 priodol (a bod wedi cwblhau modiwlau penodol ar arweinyddiaeth) erbyn 2020, a chymhwyster lefel 6 erbyn 2024.

**Cwestiwn 3**: A ydych yn cytuno â'r argymhellion hyn?

Er ein bod yn cynnig annog uwchsgilio i Lefel 5 a **datblygu swyddogaeth ymarferydd uwch ar y lefel hon**, mae ein dyheadau ar gyfer gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant yn mynd ymhellach na hyn. Ymhen 10 mlynedd, ein dymuniad yw i'r sector hwn gael ei arwain gan raddedigion â gwybodaeth arbenigol am ddatblygiad plant. Am y rheswm hwn, rydym yn cynnig gweithio gyda Chyngor Gofal Cymru i ddatblygu meincnod ar gyfer achredu **cymwysterau dysgu seiliedig ar waith lefel 6** ar gyfer ymarferwyr profiadol a darpar arweinwyr yn y sector. Mabwysiadwyd y dull hwn yn yr Alban gyda llwyddiant cynnar - ystyrir bod y Dyfarniad Arfer Plentyndod wedi cyfrannu at broffesiynoli cynyddol gweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ac mae gwaith ymchwil yn dynodi bod ymarferwyr â'r cymhwyster hwn yn teimlo eu bod yn gweithio ar yr un lefel â gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal, dysgu a datblygiad plant.[20] Ein bwriad yw y gellid cyflawni'r cymhwyster Lefel 6 trwy lwybr dysgu seiliedig ar waith a sefydliad addysg uwch, gan gynnig opsiynau ar gyfer astudio rhan-amser neu lawn amser.

[20] *Knowledge, Confidence and Leadership: Childhood Practice in Action* (Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban, 2014).

**Cwestiwn 4:** A ydych yn cytuno y byddai'r cymhwyster lefel 6 arfaethedig yn ddull a fyddai'n rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i ymarferwyr allu arwain a darparu arfer o ansawdd uchel?

Argymhellodd Adolygiad Graham hefyd y dylid datblygu llwybr arbenigol blynyddoedd cynnar i Statws Athro Cymwysedig (SAC).

> Argymhelliad 19: Rydym yn argymell bod llwybr newydd yn cael ei gyflwyno i ennill Statws Athro Cymwysedig, sy’n seiliedig ar gymwyseddau ar gyfer arbenigwyr plant yn y blynyddoedd cynnar. Dylai hwn ganolbwyntio ar ddatblygiad plant o’r adeg y cânt eu geni nes eu bod yn saith oed, a’r Cyfnod Sylfaen. Dylai hyn ddigwydd ar y cyd â’r gwaith o ddatblygu cymhwyster arweinyddiaeth AGPC[21] ar lefel 6, sy’n seiliedig ar ddysgu yn y gweithle.

Mae’r argymhelliad hwn yn galw am lwybr arbenigol o HCA yn arwain at SAC i gael ei gyflwyno sy’n arbenigo mewn datblygiad plant o 0 i 7 oed a’r Cyfnod Sylfaen ynghyd ag ennill cymhwyster dysgu seiliedig ar waith. Ar hyn o bryd, byddai’n rhaid i unigolyn fodloni’r safonau SAC er mwyn bod yn athro/athrawes gymwysedig yng Nghymru. Cyfres o ddatganiadau deilliant statudol yw’r rhain sy’n diffinio’r hyn y dylai athro/athrawes ei wybod, ei ddeall a gallu ei addysgu ar gyfer y grŵp oedran y maent yn cael eu hyfforddi i’w haddysgu, i fod yn athro/athrawes gymwysedig.

Mae’r safonau SAC yn nodi’r hyn sy’n ofynnol er mwyn gallu addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, a gall darparwyr HCA gynnig y cyfle i hyfforddeion arbenigo hefyd – er enghraifft, yn y blynyddoedd cynnar; Cyfnod Allweddol 2; llythrennedd a rhifedd, mathemateg neu’r celfyddydau a gwyddoniaeth. Sicrhau SAC yw’r cam cyntaf yng ngyrfa athro/athrawes ac mae llawer o athrawon yn mynd yn eu blaenau i arbenigo mewn maes penodol neu i ennill cymhwyster seiliedig ar waith ar ôl iddynt gymhwyso yn rhan o’u dysgu proffesiynol parhaus.

Nid ydym yn bwriadu datblygu llwybr arbenigwr plentyndod cynnar i SAC gan ein bod o’r farn bod y cymhwyster Lefel 6 arfaethedig yn ddull a fyddai’n rhoi’r wybodaeth a’r sgiliau angenrheidiol i ymarferwyr allu arwain a darparu arfer o ansawdd uchel. Rydym hefyd o’r farn bod y cymhwyster hwn yn llwybr posibl i’r proffesiwn addysgu, os yw hynny’n briodol i’r unigolyn, yn dilyn blwyddyn ychwanegol o astudiaeth ôl-raddedig i ennill SAC.

Fodd bynnag, byddem yn annog darparwyr HCA i gynnig mwy o gyfleoedd i gael profiad wedi ei ganolbwyntio ac arbenigol yn y blynyddoedd cynnar mewn amrywiaeth mor eang o leoliadau â phosibl. Byddem yn hyrwyddo canolfannau dysgu fel cyfle i’r rhai sy’n derbyn HCA ennill profiad mewn lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir.

---

[21] AGPC: Addysg a Gofal Plentyndod Cynnar.

Ar lefel a arweinir gan athrawon, gwnaeth yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen ddau argymhelliad sy'n cefnogi darpariaeth y Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion , a byddem yn cymeradwyo'r ddau ac yn annog ysgolion ac awdurdodau lleol i'w mabwysiadu neu eu hyrwyddo ymhellach.

> Argymhelliad 20: Ystyried ei gwneud yn ofynnol i Athro cymwys arwain ymarfer ym mhob dosbarth Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion a gynhelir (gan gynnwys dosbarthiadau meithrin).

Byddem yn ail-bwysleisio ei bod yn ddyletswydd i bob dosbarth mewn ysgolion, gan gynnwys mewn ysgolion meithrin a gynhelir, gael ei arwain gan athro/athrawes gymwysedig.[22] Dylai cynorthwywyr addysgu lefel uwch (CALUau) ddarparu cefnogaeth ychwanegol ac achlysurol, ac ni ddylent ddisodli swyddogaeth athro/athrawes.[23]

> Argymhelliad 22: Hyrwyddo hyfforddiant a chymwysterau pellach athrawon o fewn y Cyfnod Sylfaen i Lefel Meistr, gan gynnwys Rhaglen y Radd Meistr mewn Ymarfer Addysgol. Dylai dysgu ar y lefel hon gael ei gynllunio i gefnogi a gwella ymarfer yn y Cyfnod Sylfaen ac effeithio ar arweinyddiaeth a'r defnydd effeithiol o Cau yn ogystal â chefnogi dealltwriaeth bellach o addysgeg ac ymarfer y Cyfnod Sylfaen, meddwl beirniadol a sgiliau gwerthuso a chofnodi.

Bydd y ddarpariaeth Meistr newydd (a fydd yn cael ei chynnig i bob athro o fid Medi 2016 ymlaen) yn cynnwys modiwlau lefel Meistr annibynnol i gefnogi darpariaeth y Cyfnod Sylfaen.

Gwnaeth yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen argymhelliad mwy cyffredinol hefyd o ran dysgu a datblygu ar gyfer arweinwyr ar draws y sector:

> Argymhelliad 15: Datblygu hyfforddiant pwrpasol penodol ar arweinyddiaeth sydd wedi'i gynllunio i gefnogi arweinwyr ym mhob rhan o'r sector, o fewn ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir, ond yn enwedig gan gynnwys penaethiaid cynradd.

---

[22] Mae Rheoliadau Addysg (Gwaith Penodedig a Chofrestru) (Cymru) 2010 yn darparu y caiff y canlynol gael eu gwneud gan athro/athrawes gymwysedig yn unig:
"Gwaith penodedig -
(1) Mae pob un o'r gweithgareddau canlynol yn waith penodedig at ddibenion y Rheoliadau hyn —
(a) cynllunio a pharatoi gwersi a chyrsiau ar gyfer disgyblion;
(b) cyflwyno gwersi i ddisgyblion;
(c) asesu datblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion; ac
(ch) adrodd ar ddatblygiad, cynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.

[23] Nid yw hwn yn ofyniad statudol ond fe'i nodir mewn canllawiau ar swyddogaeth CALUau: *Safonau Proffesiynol (Diwygiedig) ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu Lefel Uwch yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2008). http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/2672720/?lang=cy

Bydd hyfforddiant arweinyddiaeth yn cael ei ymwreiddio yn y cymwysterau Lefel 5 a 6 ar gyfer ymarferwyr uwch a darpar arweinwyr a bydd mentora a chefnogaeth arweinyddiaeth yn cael eu darparu drwy'r Canolfannau Dysgu. Bydd y Canolfannau Dysgu yn ceisio mabwysiadu ymagwedd at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i halinio â nodweddion allweddol **Model Dysgu Proffesiynol** Llywodraeth Cymru i ysgolion: hyfforddi a mentora, cydweithio effeithiol, arferion myfyriol a defnydd effeithiol o ddata a thystiolaeth ymchwil. Bydd y gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion yn cael ei alinio'n unol â'r nodweddion hyn a'r consortia addysg rhanbarthol, ac ysgolion eu hunain yn y pen draw, fydd y prif asiantau cyflenwi o hyd wrth weithredu'r **Llwybr Datblygu Arweinyddiaeth** sy'n cael ei ddatblygu gyda chymorth y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol. Nod y llwybr yw cyflwyno dulliau blaengar o ddatblygu arweinyddiaeth i bawb sy'n seiliedig ar arfer ac yn parhau drwy gydol gyrfa. Bydd yr opsiynau datblygu arweinyddiaeth fydd ar gael i ymarferwyr yn hyblyg fel y gall ymarferwyr gael mynediad atynt yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, eu hanghenion a'u dyheadau.

**Crynodeb**

Er mwyn cryfhau arweinyddiaeth yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, rydym yn cynnig:

- sefydlu grŵp gweithlu lefel uchel i fonitro gweithrediad a darpariaeth y cynllun gweithlu 10 mlynedd
- galw ar gonsortia i amlinellu eu swyddogaeth goruchwylio'r Cyfnod Sylfaen a sut mae hyn yn cefnogi'r agenda blynyddoedd cynnar ehangach, ac adolygu'r wybodaeth fonitro ar gyfer cyllid y Cyfnod Sylfaen
- comisiynu ymarfer mapio o'r gefnogaeth a'r hyfforddiant sydd ar gael ledled Cymru
- cefnogi datblygiad canolfannau dysgu y blynyddoedd cynnar trwy brawf cychwynnol
- datblygu swyddogaeth ymarferydd uwch y blynyddoedd cynnar (Lefel 5) i gydnabod aelodau staff mwy cymwysedig a phrofiadol
- datblygu cymhwyster a rhaglen gefnogaeth dysgu seiliedig ar waith Lefel 6 ar gyfer darpar arweinwyr yn y sector.

# 2. Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel

## Yr hyn rydym yn dymuno ei weld

Ein gweledigaeth yw i'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fod yn yrfa o ddewis i ddarpar newydd-ddyfodiaid i'r sector deimlo bod ganddynt wybodaeth am yr amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael iddynt yn y gweithle plant craidd ac ehangach. Rydym yn dymuno denu newydd-ddyfodiaid sydd â'r gallu i gaffael a dangos lefel briodol o sgiliau, gwybodaeth ac ymddygiadau i ddarparu gofal ac addysg o ansawdd uchel i blant.

Un dybiaeth rydym wedi bod yn ceisio ei phrofi a'i herio yw y gellir ystyried gyrfaoedd yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae fel llwybr cyflogaeth addas i'r rhai sy'n gadael yr ysgol sydd â llai o ddiddordeb mewn gyrfaoedd eraill, mwy academaidd. Mae'n gamarweiniol cyflwyno gweithio gyda phlant fel dewis gyrfaol rhwydd ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod unigolion â chymwysterau uwch mewn sefyllfa well i allu darparu gofal o ansawdd uchel.

Fodd bynnag, wrth ystyried addasrwydd unigolyn i weithio ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, mae'n rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng lefel eu gwybodaeth, fel y dangosir gan gymwysterau academaidd, a'u sgiliau a'u hymddygiadau sy'n dynodi y gallent fod yn ddelfrydol ar gyfer gweithio gyda phlant ifanc. Mae'n hanfodol ein bod yn cael y cydbwysedd hwn yn iawn.

Mae angen i ni gydnabod hefyd bod unigolion yn ymuno â sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae trwy amrywiaeth o wahanol lwybrau ac ar wahanol adegau yn ystod eu bywydau. Canfu arolwg diweddar Cyngor Gofal Cymru o'r gweithlu bod cyfran fwy neu lai'r un maint o newydd-ddyfodiaid yn dod o gyfrifoldebau magu teulu neu ofal (23 y cant) ag o addysg neu hyfforddiant llawn amser (26 y cant).[24] Mae'n rhaid i raglenni dysgu a datblygu fod yn ymatebol i anghenion ac amgylchiadau'r gweithlu amrywiol hwn.

Rydym yn dymuno symud tuag at gyflwyno darlun mwy realistig o'r heriau o weithio gyda phlant ifanc iawn, ond hefyd y cyfleoedd lawer sy'n cynnig boddhad mawr y gall y llwybr gyrfaol hwn eu cynnig. Byddai gwybodaeth well am weithio yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn helpu i sicrhau bod newydd-ddyfodiaid yn frwdfrydig am weithio yn y maes hwn ac yn gwella'r gyfradd cadw staff yn y gweithlu. Wrth ymuno â'r sector, rydym yn dymuno sicrhau bod cyfnod ymsefydlu strwythuredig ar gael sy'n sefydlu dull dysgu parhaus ar gyfer datblygiad proffesiynol, gyda chefnogaeth ychwanegol yn ôl yr angen i ennill cymwysterau lefel ymarferwr, ac i greu momentwm i wneud cynnydd pellach os dymunir gwneud hynny.

[24] *Arolwg Gweithlu y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae 2014* (Cyngor Gofal Cymru, 2014).

## Y dystiolaeth i gefnogi hyn

Awgrymodd ymgysylltiad â rhanddeiliaid yn ystod datblygiad y cynllun drafft hwn nad yw'r amrywiaeth o gyfleoedd a gynigir gan yrfa mewn gofal plant a'r llwybrau cynnydd posibl drwy'r sector yn cael eu cyfathrebu'n eglur ac fel mater o drefn i newydd-ddyfodiaid nac i'r gweithlu presennol. Yn yr un modd, amlygodd gwaith ymchwil y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus gyda grwpiau ffocws o ymarferwyr y blynyddoedd cynnar bod ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth gyfyngedig o gyfleoedd i fynd ymlaen i wasanaethau plant ehangach.[25] Ar y llaw arall, mae'r gwerthusiad o Dechrau'n Deg yn amlygu yr adroddwyd bod yr hyfforddiant ychwanegol sy'n ofynnol i ymarferwyr wedi cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau proffesiynol.[26]

Yn ei hadolygiad yn 2012 o gymwysterau addysg y blynyddoedd cynnar a gofal plant yn Lloegr, nododd yr Athro Cathy Nutbrown bwysigrwydd sefydlu llwybr gyrfaol strwythuredig trwy alwedigaethau'r blynyddoedd cynnar, gan awgrymu y byddai hyn yn cyfrannu at broffesiynoldeb cynyddol yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Yn ogystal â chefnogi datblygiad gweithlu mwy ymgysylltiedig a gwybodus, mae tystiolaeth yn awgrymu y gall gweithlu â chymwysterau uwch wella deilliannau'r blynyddoedd cynnar. Dywedodd Nutbrown hefyd mai cymhwyster Lefel 3 yw'r safon ofynnol ddelfrydol ar gyfer yr holl aelodau staff sy'n gweithio gyda babanod a phlant ifanc, ac na ddylid ystyried bod yr ymarferwyr hynny sydd â chymwysterau lefel is wedi cymhwyso'n llawn. Roedd Nutbrown o'r farn mai cymwysterau gofal plant Lefel 3 yw'r lefel isaf o gymhwyster i ddarparu'r dyfnder a'r manwl gywirdeb astudio o ran datblygiad a gofal plant ifanc i wella profiadau plant yn y blynyddoedd cynnar.[27]

Mae dwy raglen flaenllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru, Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, yn argymell bod gan ymarferwyr gymhwyster Lefel 3 o leiaf. Rydym yn dymuno gweld gweddill y sector yn bodloni'r safon hon ar gyfer gofal o ansawdd uchel. O'u hystyried gyda'i gilydd, rydym wedi ein hargyhoeddi gan dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol bod cymwysterau uwch yn gwneud gwahaniaeth i ddeilliannau plant. Mae'n rhaid i ddisgwyliadau uchel o ran cymwysterau ymarferwyr a sgiliau a galluoedd newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu hwn gyfateb i'r safonau uchel rydym yn gofyn amdanynt, a hynny'n gywir, i'n plant.

[25] Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (2008), t.27.
[26] *National Evaluation of Flying Start: Area Case Study Synthesis Report*, (SQW, 2013), t. vi a t. 39.
[27] Cathy Nutbrown, *Foundations for Quality: The independent review of early education and childcare qualifications* (2012) t. 31.

## Yr hyn rydym yn argymell ei wneud

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r newidiadau yr hoffem eu gweld i ddenu newydd-ddyfodiaid i weithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae sydd â'r sgiliau a'r galluoedd priodol i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Mae hefyd yn cynnig sut y gellid darparu gwybodaeth well i ddarpar newydd-ddyfodiaid wrth ystyried gyrfa ym maes addysg gynnar neu ofal plant a'r gefnogaeth y dylent ei disgwyl wrth ymuno â'r proffesiwn i'w galluogi i barhau eu dysgu proffesiynol.

Mae cyngor gyrfaoedd o ansawdd da yn hanfodol er mwyn denu newydd-ddyfodiaid priodol i weithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Rydym yn dymuno gweld **adnoddau presennol** ar weithio gyda phlant ifanc a gynhyrchwyd gan Gyngor Gofal Cymru ac eraill (gan gynnwys llyfryn *Gyrfaoedd: Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* a phecyn canllawiau gyrfaoedd *A Question of Care*) **yn cael eu hyrwyddo'n well**, ac i sicrhau bod yr adnoddau hyn yn gysylltiedig â Gyrfa Cymru. Mae'r broses barhaus o ailwampio cynnwys ar-lein Gyrfa Cymru yn cynnig cyfle amserol i nodi'n eglur y sgiliau gofynnol a'r ymddygiadau disgwyliedig angenrheidiol ar gyfer gyrfa mewn addysg gynnar, gofal plant neu waith chwarae.

Trwy hyfforddeiaethau, gall pobl ifanc 16 i 18 oed elwa o amrywiaeth o leoliadau strwythuredig a allai gynnwys cyflwyniad i weithio ym maes gofal plant. Yn yr un modd, mae rhaglen Twf Swyddi Cymru yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd swyddi i bobl ifanc di-waith am gyfnod o chwe mis am dâl sy'n cyfateb i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu fwy. Gall ffrwd bwrsariaeth y rhaglen hon gynnig cefnogaeth i'r rhai sy'n dymuno sefydlu eu busnes eu hunain, a allai gynnwys busnes gofal plant neu warchod plant. Rydym hefyd yn dymuno adeiladu ar gysylltiadau gyda'r Ganolfan Byd Gwaith i ddarparu gwybodaeth gyfredol i'r rhai a allai fod yn chwilio am waith, neu'n dychwelyd i'r gwaith, ac i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i recriwtio i sector y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

Rydym yn cydnabod gwerth sgyrsiau wyneb yn wyneb am wirioneddau gweithio gyda phlant ifanc a'r boddhad y gellir ei gael o hynny. Mae cynllun Llysgenhadon y Blynyddoedd Cynnar Cyngor Gofal Cymru yn cynnig ymweliadau ag ysgolion a cholegau, presenoldeb mewn ffeiriau a chynadleddau recriwtio, yn ogystal â chynnal ffug-gyfweliadau gyda phobl ifanc. Yn y sector chwarae, mae SkillsActive yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr a thrwy rwydweithiau cyflogwyr i gefnogi datblygiad y gweithlu trwy ddulliau ar-lein a chanllawiau ar gymwysterau. Rydym hefyd o'r farn bod y **sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno** a gynhelir yn rheolaidd ar gyfer darpar warchodwyr plant yn enghraifft dda o ymgysylltiad â darpar newydd-ddyfodiaid i'r sector. Mae gennym ddiddordeb yn eich safbwyntiau o ran sut y gellid ehangu a darparu'r sesiynau hyn i fodloni gofynion a chyfleoedd gweithio ym mhob math o leoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant.

**Cwestiwn 5a:** A ydych yn cytuno y byddai'n fuddiol pe byddai sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno yn cael eu hymestyn i gynnwys y gofynion a'r cyfleoedd sydd ynghlwm wrth weithio ym mhob math o leoliadau'r sector blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae?

**Cwestiwn 5b:** Os ydych yn cytuno, rhowch wybodaeth am sut fyddai orau i fynd ati i ymestyn y sesiynau hyn a'u cyflwyno?

Yn ogystal â'r gweithgareddau hyrwyddo ac ymgysylltu hyn, rydym hefyd yn cynnig y dylai Cyngor Gofal Cymru weithio gyda phartneriaid allweddol i **fapio llwybrau cynnydd i broffesiynau eraill yn y gweithlu plant ehangach**. Rydym yn dymuno gweld cysylltiadau gwell yn cael eu gwneud rhwng y blynyddoedd cynnar a gofal plant ac addysgu, gwaith cymdeithasol a therapi lleferydd ac iaith, ymhlith eraill. Yn ddelfrydol, dylai newydd-ddyfodiaid ddeall sut mae eu swyddogaeth yn cyfrannu at strwythur cefnogaeth mwy i blant ifanc, gwerthfawrogi'r sgiliau trosglwyddadwy y bydd yn eu galluogi i'w caffael ac ennill cefnogaeth i astudio ar gyfer y cymwysterau ychwanegol sydd eu hangen i symud ymlaen i broffesiynau eraill.

Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn dymuno annog diwylliant o hunan-wella a dysgu proffesiynol parhaus ymhlith ymarferwyr. Dylai hyn gychwyn wrth ymuno â'r gweithlu. Mae *Fframwaith Sefydlu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant* a gynhyrchwyd gan Gyngor Gofal Cymru yn cynnig cychwyn strwythuredig i weithwyr yn ystod eu 12 wythnos gyntaf o gyflogaeth ac yn helpu i nodi anghenion datblygu. Byddem yn cynnig mai **proses ymsefydlu strwythuredig** ddylai fod y cam cyntaf mewn cynllun datblygu personol i'r holl newydd-ddyfodiaid i'r sector ac y dylid cofnodi cwblhad hwn mewn portffolio DPP. Amlinellir rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r portffolio DPP hwn yn gweithio yn adran ganlynol y ddogfen hon.

**Cwestiwn 6:** A ydych yn cytuno mai proses ymsefydlu strwythuredig ddylai fod y cam cyntaf mewn cynllun datblygu personol ar gyfer pob newydd-ddyfodiad i'r sector ac y dylid cofnodi bod y broses hon wedi'i chwblhau mewn portffolio datblygiad proffesiynol parhaus (CPD)?

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, mae tystiolaeth yn nodi bod cymwysterau lefel uwch ymhlith ymarferwyr yn ffactor arwyddocaol sy'n cyfrannu at ddeilliannau gwell i blant. Mae wedi bod yn bryder ers cryn amser nad yw graddau blynyddoedd cynnar a gofal plant yng Nghymru yn cynnwys y cymwysterau cymhwysedd gofynnol i alluogi graddedigion prifysgol i gael eu cyflogi fel ymarferwyr wrth ymuno â'r sector. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch (SAUau) i fynd i'r afael â'r mater hwn wrth i gymhwyster dysgu seiliedig ar waith Lefel 6 (yn cyfateb i lefel gradd) newydd gael ei ddatblygu. Fodd bynnag, ein bwriad hefyd yw y dylai'r cymhwyster newydd hwn gael ei ategu gan **Dystysgrif Lefel Graddedig mewn Arweinyddiaeth mewn Arfer Plentyndod**. Byddai hyn yn galluogi graddedigion prifysgol o lwybrau gradd amrywiol i sicrhau'r cymhwysedd angenrheidiol i ymarfer mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant ar lefel sy'n briodol iddyn nhw ac sy'n cymryd y sgiliau lefel uwch y maent wedi eu datblygu yn ystod eu cymhwyster gradd i ystyriaeth.

**Cwestiwn 7:** A ydych yn cytuno y dylid cynnig Tystysgrif Lefel Raddedig mewn Arweinyddiaeth mewn Arfer Plentyndod i gyd-fynd ag unrhyw gymhwyster Lefel 6 yn y dyfodol i alluogi graddedigion i ennill cymhwyster ar lefel briodol ac i ymarfer yn y sector wedi iddynt gwblhau eu gradd?

Gwnaeth Adolygiad Graham ddau argymhelliad penodol ar y lefel briodol o gymwysterau i bob ymarferydd mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant:

> Argymhelliad 17: Rydym yn argymell bod pob ymarferydd AGPC sy'n cael ei gyfrif o fewn cymarebau a reoleiddir, yn meddu ar gymwysterau priodol hyd at lefel 3 neu uwch, neu'n gweithio tuag at gymhwyster dysgu yn y gwaith ar lefel 3, sydd i'w gwblhau o fewn cyfnod o dair blynedd. Dylai hyn gynnwys gwarchodwyr plant (er y dylid caniatáu cyfnod o dair blynedd iddynt gyflawni hyn, o'r adeg y maent yn cofrestru gyntaf).
>
> Argymhelliad 18: Mewn gwasanaethau Cyfnod Sylfaen (mewn ysgolion a lleoliadau nas cynhelir) neu wasanaethau Dechrau'n Deg a ariennir, rydym yn argymell y dylai ymarferwyr sy'n cael eu cyfrif o fewn y cymarebau feddu ar gymwysterau lefel 3 priodol. Dylent hefyd gael o leiaf 5 diwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn.

Rydym yn cefnogi'r uchelgais o weld **Lefel 3 mewn cymhwyster perthnasol fel y safon dderbyniol ar gyfer yr holl ymarferwyr yn y sector dros amser**. Rydym yn cynnig diwygio'r SGC i adlewyrchu hyn, trwy broses gam wrth gam, mewn dau gam dros gyfnod o 10 mlynedd. Yn y cyfamser, byddwn yn cefnogi'n ymarferol cymaint o ymarferwyr â phosibl i uwchsgilio i'r lefel hon (nodir ein cynlluniau ar gyfer hyn yn fwy manwl yn yr adran ganlynol).

**Cwestiwn 8a:** A ydych yn cytuno â'r uchelgais o weld Lefel 3 mewn cymhwyster perthnasol fel y safon dderbyniol ar gyfer yr holl ymarferwyr yn y sector dros amser?

**Cwestiwn 8b:** A ydych yn cytuno â chyflwyno'r gofyniad hwn gam wrth gam, mewn dau gam dros gyfnod o 10 mlynedd?

Gan ein bod yn ymwybodol o'r her o ddangos cymhwysedd ymarferol oni bai mewn cyflogaeth, ni fyddwn yn ei gwneud yn amod bod yn rhaid i newydd-ddyfodiaid feddu ar gymhwyster Lefel 3 llawn, ond yn hytrach bod yn rhaid iddynt fod wedi eu hymrestru ar gwrs neu raglen dysgu seiliedig ar waith i ennill y cymhwyster hwn o fewn cyfnod o dair blynedd. Gan gytuno ag Adolygiad Graham, byddem yn ei gwneud yn amod y dylai'r lefel gymhwyster hon hefyd fod yn berthnasol i'r holl warchodwyr plant cofrestredig, i'w hennill o fewn tair blynedd o'u cofrestriad cychwynnol.

**Cwestiwn 9:** Yn eich barn chi, a ydy'n briodol i warchodwyr plant ennill cymhwyster Lefel 3 perthnasol cyn pen tair blynedd o ddyddiad eu cofrestru cychwynnol?

O ran Argymhelliad 18, byddem yn pwysleisio mai Lefel 3 yw'r lefel gymhwyster a argymhellir eisoes ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg. Byddem yn disgwyl i gyflogwyr (ysgolion, awdurdodau lleol a/neu eu contractwyr) fod yn bodloni'r gofyniad hwn wrth recriwtio, neu i sicrhau bod ymarferwyr wedi eu hymrestru ar lwybrau dysgu seiliedig ar waith erbyn mis Medi 2016 i gyrraedd y lefel gymhwyster hon erbyn 2018. Byddwn yn edrych i'r gweithgarwch parhaus dan y Cynllun Gweithredu Aelodau Staff Cymorth i nodi unrhyw hyfforddiant neu ddysgu ychwanegol sy'n briodol i aelodau staff cymorth dysgu. Mae ein dull arfaethedig wedi ei gynllunio i sicrhau tegwch ar draws y sector, gan gefnogi lleoliadau i symud yn raddol tuag at yr un gofynion cymwysterau â'r Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg a chynnig addysg gynnar a gofal o ansawdd yr un mor uchel. Trafodir elfennau DPP yr argymhelliad hwn yn yr adran nesaf.

Rydym yn cydnabod efallai y bydd angen mwy o amser ar rai newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu i ennill cymhwyster Lefel 3 ac i ddangos y gallu angenrheidiol i weithio heb oruchwyliaeth fel ymarferwyr. Am y rheswm hwn, rydym o'r farn bod Lefel 2 yn gymhwyster cyflwyniadol gwerthfawr i'r blynyddoedd cynnar a gofal plant i'r rhai sy'n gweithio dan oruchwyliaeth fel ymarferwyr cynorthwyol ac fel cam cyntaf defnyddiol ar lwybr dysgu proffesiynol. Unwaith eto, gellid ennill y cymhwyster hwn o fewn tair blynedd a dylai rheolwyr asesu a allai'r ymarferydd cynorthwyol fynd yn ei flaen i gymhwyster Lefel 3 ar ôl ei gwblhau a chael ei gynnwys yn y gymhareb aelodau staff Lefel 3 yn y lleoliad. Gan fod Lefel 2 yn dangos yr angen am arfer dan oruchwyliaeth, nid ydym yn ei ystyried fel cymhwyster priodol ar gyfer gwarchodwyr plant cofrestredig.

## Crynodeb

Er mwyn denu unigolion sy'n gallu darparu addysg gynnar a gofal o ansawdd uchel i'r gweithlu, rydym yn cynnig:

- gwella ansawdd cyngor gyrfaoedd a chynyddu'r ddarpariaeth o sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno
- mapio a hyrwyddo llwybrau gyrfaol i'r gweithlu plant ehangach
- cefnogi'r defnydd o Fframwaith Sefydlu a phecyn adnoddau Cyngor Gofal Cymru ar gyfer lleoliadau newydd
- denu ymgeiswyr lefel gradd trwy sicrhau y gall graddedigion fodloni'r asesiad gofynnol o gymhwysedd i ymarfer
- defnyddio cymwysterau Lefel 2 fel y safon ofynnol ar gyfer ymarferwyr cynorthwyol (y rhai sy'n gweithio dan oruchwyliaeth yn y sector nas cynhelir)
- diwygio'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn nodi mai Lefel 3 yw'r cymhwyster lefel ymarferydd disgwyliedig i bob aelod o staff sydd wedi ei gynnwys mewn cymarebau (wedi ei gyflwyno gam wrth gam â chyfnod arwain o 10 mlynedd).

# 3. Gwella sgiliau a safonau ar draws y gweithlu presennol

## Yr hyn rydym yn dymuno ei weld

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, ac wedi ein llywio gan Adolygiad Graham a gwaith ymchwil arall ar lefel y DU a rhyngwladol, rydym yn cynnig uwchsgilio holl ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant i gymhwyster Lefel 3 perthnasol dros y 10 mlynedd nesaf.

Ar hyn o bryd, mae gennym weithlu â lefelau amrywiol o gymwysterau a sgiliau. Felly, ni allwn gyflwyno 'dull un ateb sy'n addas i bawb' trwy orfodi lefel benodol o gymwysterau erbyn dyddiad penodol – mae angen i ni gynnig cefnogaeth i unigolion uwchsgilio'n raddol. Dyma pam y bydd y cynllun gweithlu yn cwmpasu cyfnod o 10 mlynedd.

Dangosodd arolwg diweddar o weithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae mai cyfran isel iawn o ymarferwyr sy'n gweithio tuag at gymhwyster ar lefel uwch na'r un sydd ganddynt ar hyn o bryd. Nid yw tua thri chwarter yr aelodau staff mewn lleoliadau ar draws yr amrywiaeth o ddarpariaethau yn y sector yn cymryd rhan mewn uwchsgilio sy'n arwain at gymhwyster. Gyda'n gilydd, mae angen i ni ganfod y rhesymau posibl am hyn ac ystyried sut y gallwn gymell dysgu parhaus ac annog ymarferwyr i flaenoriaethu eu datblygiad proffesiynol unigol.

**Ffigur 4: Canran cyfartalog yr aelodau staff sy'n gweithio tuag at y cymhwyster nesaf i fyny**

| Math o ddarparwr (cyfanswm yr ymatebion: 641) | Yn gweithio tuag at y cymhwyster nesaf i fyny | Ddim yn gweithio tuag at y cymhwyster nesaf i fyny |
|---|---|---|
| Gofal dydd llawn (136) | 23% | 74% |
| Gofal dydd sesiynol (191) | 21% | 74% |
| Gwarchodwr plant (96) | 19% | 75% |
| Gofal plant y tu allan i oriau ysgol (44) | 23% | 74% |
| Dechrau'n Deg (59) | 27% | 73% |
| Y Cyfnod Sylfaen a gynhelir (49) | 14% | 80% |

Ffynhonnell: Arolwg Gweithlu y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae 2014, Cyngor Gofal Cymru. Cwblhawyd yr arolwg hwn gan reolwyr mewn 641 lleoliad ledled Cymru. Gan nad yw pwysoliadau poblogaeth ar gael, mae'r tabl yn nodi cyfrannau sampl. O ganlyniad, dylid bod yn ofalus wrth ddehongli canfyddiadau. Efallai na fydd y ffigurau'n dod i gyfanswm o 100% oherwydd talgrynnu. Nid yw is-grwpiau o lai na 30 o ymatebion wedi eu cynnwys yn y tabl: Crèche; Lleoliad chwarae mynediad agored cofrestredig; Lleoliad chwarae mynediad agored nad yw wedi ei gofrestru a lleoliad Cyfnod Sylfaen nas cynhelir wedi ei ariannu.

Er ein bod yn dymuno annog a chefnogi cyfleoedd i ymarferwyr ddatblygu eu sgiliau trwy gwblhau cymwysterau ar lefelau uwch, rydym hefyd yn cydnabod y bydd rhai ymarferwyr yn dymuno cynyddu eu sgiliau ar eu lefel gyfredol, neu arbenigo mewn meysydd ymarfer penodol. Dylai rhaglenni dysgu a datblygu proffesiynol parhaus fod yn bersonol ac yn ddigon hyblyg i gefnogi'r mathau hyn o ddysgu parhaus.

Fel y trafodwyd yn yr adran flaenorol, mae'n bosibl bod cyfres o dybiaethau annefnyddiol a chamarweiniol am weithio gyda phlant ifanc wedi cyfrannu at dybiaeth bod gofal plant yn llwybr cyflogaeth addas i'r rhai sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau academaidd mewn TGAU Saesneg a Mathemateg; cymwysterau a fyddai'n cael eu hystyried yn ofynion mynediad i lawer o broffesiynau eraill. Felly, yng ngweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, efallai fod gan nifer o weithwyr cyflogedig ddiffyg lefel sylfaenol o sgiliau llythrennedd a rhifedd, neu ddiffyg hyder yn eu defnyddio.

Mae gweithlu sy'n hyderus yn defnyddio sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hanfodol er mwyn galluogi datblygiad y sgiliau hyn mewn plant ac o ganlyniad rydym yn dymuno gweld pob ymarferydd yn meddu ar gymhwyster academaidd sy'n arddangos cymhwysedd yn y sgiliau hyn, neu'n cael ei gefnogi i gwblhau cymhwyster galwedigaethol cyfatebol yn rhan o'i DPP.

Mae'r cynllun gweithlu 10 mlynedd yn allweddol ar gyfer gwireddu ein nod lefel o uchel o weithlu dwyieithog sy'n galluogi rhieni/gofalwyr i gael mynediad at ofal plant yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni ystyried lefelau presennol sgiliau cyfathrebu mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn ogystal â chefnogi ymarferwyr i wella eu sgiliau Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Nododd y *Childcare gap analysis for Wales* (Cordis Bright, 2014) amrywiaeth o fylchau yn y ddarpariaeth iaith Gymraeg ar draws pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol. Mae'r bylchau hyn, fel y nodwyd yn Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf awdurdodau lleol, yn ymwneud â hygyrchedd y ddarpariaeth, y ddarpariaeth sydd ar gael ac amrywiaeth y ddarpariaeth. Mae angen i'n dull o ddatblygu gweithlu dwyieithog gymryd bylchau a nodwyd mewn amrywiaeth o wahanol leoliadau ledled Cymru i ystyriaeth fel y gellir cefnogi plant i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Ar yr un pryd, bydd angen i anghenion datblygu'r gweithlu fod yn hyblyg i ddiwallu anghenion a bodloni galw darpariaeth leol.

## Y dystiolaeth i gefnogi hyn

### Cynnydd gyrfaol

Cyflwynodd astudiaeth ansoddol y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus o weithlu'r blynyddoedd cynnar yn 2008 ddarlun o sector uchelgeisiol yn chwilio am gefnogaeth fwy strwythuredig yn seiliedig ar gynnydd a datblygiad. Roedd canfyddiadau allweddol o'r astudiaeth hon yn cynnwys:

- roedd mwyafrif llethol y rhai a gymerodd ran yn dymuno aros yn sector y blynyddoedd cynnar am y dyfodol rhagweladwy, ac roedd mwy na hanner yn dymuno datblygu eu gyrfaoedd. Mae'n ymddangos bod y syniad a ddelir yn eang nad yw gweithwyr y blynyddoedd cynnar yn uchelgeisiol (ac nad oes ganddynt sgiliau) ymhell o'i le
- roedd mwy na hanner y bobl yn dymuno dyrchafu o'u swyddi presennol. Roedd hwn yn ddyhead cymharol gyffredinol i rai, heb gynllun gweithredu eglur
- ystyriwyd bod diffyg cyfleoedd swyddi tybiedig, cyflogwyr nad ydynt yn gefnogol ac arian yn rhwystrau i gynnydd - er bod ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth gyfyngedig o gyfleoedd i fynd ymlaen i wasanaethau plant ehangach.[28]

Mae angen strwythuro datblygiad proffesiynol ar gyfer y sector hwn ar sail llwybr cynnydd eglur sy'n cefnogi uwchsgilio graddol a pharhaus dros gyfnod gyrfa unigolyn.

### Sgiliau Hanfodol

Llythrennedd a rhifedd yw dwy o dair blaenoriaeth uchaf addysg Cymru: lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol yw'r llall. Bydd y rhain yn cael eu hail-bwysleisio yn y strategaeth newydd *Cymwys am oes*, y disgwylir iddi gael ei chyhoeddi ym mis Hydref 2014.

Cyhoeddwyd y Rhaglenni Rhifedd a Llythrennedd Cenedlaethol gennym yn 2012 a nodwyd yn eglur y camau rydym ni a'n partneriaid yn eu cymryd i sicrhau newid sylweddol i safonau dros gyfnod o bum mlynedd. Mae rhai o gamau gweithredu allweddol y rhaglenni'n cynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol, y Rhaglen Gymorth Genedlaethol ar gyfer llythrennedd a rhifedd a Phrofion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol.

[28] Y Sefydliad Ymchwil Polisi Cyhoeddus (2008), t. 27.

Mae'r Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Sgiliau Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol a'r rhaglenni astudio ar gyfer y Gymraeg (iaith gyntaf), y Saesneg a mathemateg wedi cael eu diwygio yn dilyn ymgynghoriad i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol o ran strwythur a safonau, ac i ganolbwyntio ar gwmpas oedran llawn y Cyfnod Sylfaen (3 i 7 oed).

Amlygwyd y swyddogaeth bwysig i ymarferwyr o ran cefnogi datblygiad iaith cynnar a rhifedd datblygol yn eu gwaith gyda phlant ifanc yn yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen, a nododd y canlynol.

> Mae angen i staff gael canllawiau ar y ffordd orau o gefnogi datblygiad iaith, llythrennedd a rhifedd drwy weithgareddau dysgu annibynnol a'r rhai ac iddynt ffocws. Mae angen iddynt ddeall sut i drefnu'r amgylchedd er mwyn rhoi cyfleoedd niferus i blant ymarfer eu hiaith, llythrennedd a rhifedd ar lefel sy'n briodol. Yn ogystal, mae angen iddynt deimlo'n hyderus i addysgu agweddau ar lythrennedd a rhifedd ar y lefelau priodol a chefnogi rhieni/gofalwyr wrth ddatblygu llythrennedd a rhifedd eu plant yn yr amgylchedd dysgu yn y cartref.[29]

Er i'r adroddiad hwn grybwyll yr angen am hyfforddiant wedi ei ganolbwyntio ar sail Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol Llywodraeth Cymru, argymhellodd yr awdur hyfforddiant mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd hefyd ar gyfer y rhai sydd angen y cymorth ychwanegol hwn yn y Cyfnod Sylfaen. Lle ceir angen a nodwyd o ran sgiliau llythrennedd a rhifedd, mae angen i ymarferwyr allu cael mynediad at gefnogaeth i'w galluogi i deimlo'n hyderus yn eu swyddogaeth o annog dysgu a datblygiad plant.

Hefyd, amlygodd dau adroddiad ymchwil ar ymyriadau ac arfer llwyddiannus ym maes datblygiad iaith cynnar ar gyfer Dechrau'n Deg bwysigrwydd hyfforddiant effeithiol i bob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant i ddeall gwerth datblygiad iaith cynnar.[30] Pwysleisiodd yr adroddiadau bwysigrwydd sicrhau bod y wybodaeth a'r sgiliau gan yr holl aelodau staff i ryngweithio â phlant mewn ffordd sy'n hybu datblygiad iaith. Mae'r awduron yn argymell y dylai holl aelodau staff Dechrau'n Deg dderbyn lefel ofynnol o hyfforddiant yn ymwneud ag arferion ac arfer da datblygiad iaith cynnar o ran rhyngweithio rhwng yr oedolyn a'r plentyn. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion hyn yn berthnasol i bob gweithiwr blynyddoedd cynnar proffesiynol er mwyn sicrhau cysondeb ar draws gweithlu'r blynyddoedd cynnar.

---

[29] Iram Siraj, *Archwiliad annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen yng Nghymru* (Llywodraeth Cymru, 2014), t. 51.

[30] Arad Research a'r National Centre for Language and Literacy, *A Review of Research Evidence on the effectiveness of different approaches to promoting early speech and language development* (Llywodraeth Cymru, 2014); Arad Research a'r National Centre for Language and Literacy. *A review of practice in the implementation of the early language development support element within Flying Start* (Llywodraeth Cymru, 2014).

**Sgiliau Iaith Gymraeg**

Mae Datblygiad yr Iaith Gymraeg yn un o Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Nododd adroddiad Estyn ar ddarpariaeth y maes hwn yn 2013 'pan fo'r ymarferwyr eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, mae'r plant yn gwneud cynnydd gwell wrth ddysgu Cymraeg . . . Pan na cheir unrhyw ymarferwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn hyderus mewn ysgol neu leoliad, mae'r defnydd o'r Gymraeg gan y staff yn fwy cyfyngedig fel arfer. Mae hyn yn golygu bod y plant yn clywed llai o Gymraeg ac yn cael llai o gyfle i'w hymarfer.'[31] Mae'r cyswllt rhwng gallu a hyder staff i ddefnyddio'r Gymraeg a sgiliau Cymraeg plant hefyd yn cael ei gefnogi gan ganfyddiadau cynnar o werthuso'r Cyfnod Sylfaen.

Y tu hwnt i ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen, amlygodd arolwg diweddar o sgiliau Cymraeg mewn wyth sector mai cyflogwyr yn y sector gofal plant oedd y mwyaf tebygol o'r holl sectorau o ystyried bod sgiliau Cymraeg yn bwysig (84 y cant). Ystyriwyd rhieni/gofalwyr yn credu ei bod yn ddymunol i aelodau staff feddu ar sgiliau Cymraeg a'u bod yn cyfrannu at wasanaeth cwsmeriaid gwell, yn ogystal â chefnogi datblygiad y Gymraeg ymhlith plant. Hefyd, er bod lefel sylweddol o sgiliau Cymraeg yn y sector, dangosodd yr arolwg hwn bod y rhain yn tueddu i fod ar lefel sylfaenol, wrth i 68 y cant o gyflogwyr gofal plant ddynodi y byddai sgiliau Cymraeg cynyddol yn fuddiol.[32]

Bydd gweithlu sy'n hyderus yn defnyddio eu sgiliau Cymraeg ar bob lefel yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatblygiad iaith Gymraeg plant. Bydd datblygu gallu Cymraeg yn y sector hefyd yn rhoi mwy o ddewis i rieni/gofalwyr o ran cael mynediad at ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

## Yr hyn rydym yn argymell ei wneud

Mae'r adran hon yn cyflwyno'r newidiadau rydym yn dymuno eu gweld i gynyddu gallu yn y gweithlu o ran sgiliau a chymwysterau datblygiad plant yn ogystal â'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n dymuno datblygu eu sgiliau llythrennedd, rhifedd neu Gymraeg.

[31] *Datblygu'r Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen*, (Estyn, 2013), t. 9.
[32] *Anghenion o ran sgiliau Cymraeg mewn wyth sector* (Llywodraeth Cymru, 2014), t.11-13.

## Dysgu a datblygu proffesiynol parhaus

Fel y dangosir uchod, mae gennym weithlu â lefelau amrywiol o gymwysterau a sgiliau, ac felly mae angen i ni sicrhau bod cyfleoedd ar gael i unigolion uwchsgilio'n raddol ac yn barhaus. Dylai ymarferwyr wybod pa sgiliau y disgwylir iddynt feddu arnynt ar eu lefel gyfredol o gyflogaeth a pha feysydd ymarfer y mae angen iddynt eu datblygu er mwyn gwneud cynnydd. Er ein bod yn ymwybodol bod gan lawer o leoliadau gynlluniau datblygu personol ar waith ar gyfer holl aelodau'r staff, rydym o'r farn y bydd cyfres o egwyddorion DPP sy'n berthnasol i bawb sy'n gweithio ym maes y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cynnig mwy o eglurder o ran cynnydd gyrfaol. Rydym yn cynnig comisiynu **llwybr datblygu ac egwyddorion DPP cyffredin ar gyfer y sector**, sy'n adeiladu ar y gwaith diweddar i ddatblygu fframwaith DPP ar gyfer Ymarferwyr Dechrau'n Deg.

Ochr yn ochr â'r llwybr a'r fframwaith hyn, rydym yn argymell y dylid gwneud **portffolio DPP** ar gael i bob ymarferydd, i'w cynnal ganddyn nhw, gan eu galluogi i gofnodi a chynnig tystiolaeth o'u dysgu a'u datblygiad. Byddai portffolios DPP hefyd yn galluogi ymarferwyr i ddangos a myfyrio ar ddysgu y tu allan i gymwysterau neu hyfforddiant ffurfiol, gan gydnabod gwerth mentora a chyfleoedd cysgodi swydd, er enghraifft.

**Cwestiwn 10:** A ydych yn cytuno y byddai'r gweithlu yn elwa ar set o egwyddorion DPP cyffredin a phortffolios ar-lein unigol i gofnodi dysgu a datblygu?

Yn ddelfrydol, gallai'r cofnod DPP hwn fod yn rhan o **broses cofrestru'r gweithlu**, lle byddai'n ofynnol i ymarferwyr ddangos cofnod o weithgareddau dysgu a datblygu i gefnogi ailgofrestriad. Gallai'r broses hon helpu i sefydlu diwylliant o DPP yn sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn ogystal â chyfrannu at fwy o broffesiynoli a llwybr gyrfaol wedi ei ddiffinio mwy gan y byddai ymarferwyr yn gallu cofrestru ar lefel benodol sy'n cyfateb i'w lefel cymwysterau a'u swyddogaeth. Mae'r dull hwn yn cael ei ddatblygu ar gyfer aelodau staff cymorth dysgu mewn ysgolion trwy Gyngor newydd y Gweithlu Addysg, a disgwylir i'r system hon fod ar waith erbyn 2016. Gan mai un o'n hamcanion yw mwy o gydraddoldeb rhwng y sector a gynhelir a'r sector nas cynhelir, byddem yn dymuno dysgu o'r broses hon a cheisio defnyddio egwyddorion tebyg yn y gweithlu gofal plant nas cynhelir, pe bai hynny'n briodol ac yn ymarferol. Byddwn hefyd yn edrych i'r model gwirfoddol a gyflwynwyd yn ddiweddar gan SkillsActive ar gyfer gweithwyr chwarae yn Lloegr, sydd hefyd yn cynnwys portffolio DPP wedi ei gofnodi. Byddem yn gwahodd eich safbwyntiau ar effaith a manteision posibl cofrestru'r gweithlu gofal plant yn broffesiynol.

**Cwestiwn 11a:** Yn eich barn chi, a ddylai fod yna system o gofrestru proffesiynol ar gyfer y sector nas cynhelir?

**Cwestiwn 11b:** Os dylai, sut y gellid monitro'r system hon?

Amlygwyd pwysigrwydd DPP i ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant gan Adolygiad Graham a'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen. Yn rhan o argymhelliad ehangach ar lefelau cymwysterau, nododd argymhelliad 18 Adolygiad Graham y gallai ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen a Dechrau'n Deg 'gael o leiaf 5 diwrnod o hyfforddiant datblygiad proffesiynol parhaus y flwyddyn'. Mae'r cyfle i fanteisio ar hyd at bum diwrnod o DPP eisoes yn ymrwymiad yn Rhaglen Dechrau'n Deg, ond byddem yn dymuno gweld y dull hwn yn cael ei ailadrodd drwy'r sector cyfan. Bydd Canolfannau Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar yn cydgysylltu'r gweithgarwch DPP hwn mewn ffordd sy'n hygyrch ac yn diwallu anghenion ymarferwyr lleol.

Bydd y dulliau cefnogi a'r cyfleoedd DPP hyn hefyd yn helpu i fodloni'r argymhelliad canlynol o'r Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen.

> Argymhelliad 17: Sicrhau bod Cynorthwywyr Addysgu (Cau) yn cael budd o brosesau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a chymorth o fewn ysgolion a gynhelir a bod hyfforddiant llythrennedd a rhifedd ar gael i'r rheini sydd ei angen. Datblygu llwybr gyrfa ar gyfer yr ymarferwyr hynny sy'n gweithio yn y lleoliadau nas cynhelir a ariennir ac ar gyfer Cau o fewn ysgolion a gynhelir. Hyrwyddo'r cyfleoedd hyn ac adolygu telerau ac amodau gwaith Cau er mwyn denu staff cymwys.

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, rydym yn hyrwyddo llwybr cynnydd gyrfaol wedi ei ddiffinio drwy sector y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae, gyda chysylltiadau â phroffesiynau eraill sy'n gweithio gyda phlant. Ein bwriad fyddai i hyn gynnwys llwybr gyrfaol ar gyfer cynorthwywyr dysgu ac addysgu yn yr ysgolion a gynhelir a chynnwys llwybrau cynnydd i'r proffesiwn addysgu. Er na allwn ymateb ar y mater o delerau ac amodau i aelodau staff cymorth dysgu gan nad yw hyn wedi ei ddatganoli i Weinidogion Cymru, byddem yn annog awdurdodau lleol i recriwtio cynorthwywyr Cyfnod Sylfaen ar y lefel briodol a nodir mewn canllawiau (Lefel 3). Rydym yn cefnogi datblygiad pellach sgiliau llythrennedd a rhifedd ymhlith ymarferwyr y blynyddoedd cynnar a gofal plant. Amlinellir ein hymateb i'r alwad am hyfforddiant llythrennedd a rhifedd yn yr argymhelliad hwn yn fanwl isod (tudalen 46).

Yn ogystal â sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi i roi amser o'r neilltu i ganolbwyntio ar eu datblygiad a'u dysgu proffesiynol, rydym yn dymuno sicrhau bod cynnwys hyfforddiant yn berthnasol a defnyddiol. Gwnaeth yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen nifer o argymhellion penodol yn ymwneud â'r hyfforddiant y dylid ei ddarparu i athrawon ac ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen.

> Argymhelliad 5: Sicrhau yr ategir pob modiwl/hyfforddiant gan waith theori ac ymchwil sy'n nodi'n glir werth addysg gynnar effeithiol. Mae angen i'r cysylltiadau rhwng gwaith theori ac ymarfer a rôl bwysig yr oedolyn fod yn amlwg.

Argymhelliad 8: Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod gan bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o sut mae iaith, llythrennedd a rhifedd yn datblygu a sut i gefnogi datblygiad plant o fewn y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys rôl bwysig yr oedolyn.

Argymhelliad 9: Datblygu hyfforddiant sy'n cynnwys canllawiau ac enghreifftiau clir o sut mae'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn gweddu i'r Cyfnod Sylfaen, 3 - 4 a 5 - 7. Er enghraifft yn y canllawiau 3 - 4 oed sut y gall caneuon a hwiangerddi bwysleisio dealltwriaeth o synau mewn rhigymau a chyflythrennu.

Argymhelliad 11: Ystyried cefnogi dilyniant a pharhad drwy gydol y Cyfnod Sylfaen drwy ddatblygu rhywfaint o hyfforddiant a chanllawiau ychwanegol i'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ar ymarfer iaith, llythrennedd a rhifedd i blant 3 a 4 oed, gan sicrhau bod hyn yn briodol i blant o'r fath. Dylai ddilyn eu hanghenion dysgu a datblygu unigol a gweddu i athroniaeth ac ymarfer drwy brofiadau'r Cyfnod Sylfaen.

Argymhelliad 12: Datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau bod pob aelod o staff yn deall yr ymchwil i effeithiau anfantais a thlodi a'r ffyrdd posibl o gau'r bwlch o ran cyflawniad. Dylai rhannu arfer da o'r ysgolion a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir a ariennir hynny lle mae hyn yn gweithio'n dda fod yn rhan o'r hyfforddiant yn yr un modd ag ymchwil i gefnogi'r amgylchedd dysgu yn y cartref (ADC). Gellid gofyn i ysgolion a gynhelir neilltuo rhywfaint o'u Grant Amddifadedd Disgyblion (neu rywbeth tebyg) i ddatblygiad staff cymorth yma.

Bydd yr argymhellion hyn yn cael eu hystyried yn rhan o’r broses o ailwampio Pecyn Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen a chanllawiau cysylltiedig yn y dyfodol. Disgwylir i’r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi erbyn mis Medi 2015. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ysgolion i roi’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith. Ar hyn o bryd, mae’r Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol i ysgolion. Mae gan bob ysgol yng Nghymru bartner Rhaglen Gymorth Genedlaethol a fydd yn gweithredu fel mentor i sicrhau ei bod yn derbyn y gefnogaeth a’r hyfforddiant ymarferol angenrheidiol i roi gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith yn effeithiol.

Yn gyntaf, bydd partner y Rhaglen Gymorth Genedlaethol yn trafod ac yn cofnodi cynnydd ysgolion o ran rhoi’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol ar waith. Yna, byddant yn helpu i ddarganfod y blaenoriaethau o ran diffygion sgiliau (e.e. ymateb a dadansoddi yn y Cyfnod Sylfaen) ac yn cynnig cefnogaeth wedi ei theilwra a’i thargedu ar gyfer y blaenoriaethau a nodir gan yr ysgol. Rydym hefyd wedi datblygu cyfres o ganllawiau a deunyddiau hyfforddi i gynorthwyo i gynllunio a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm.

O ran Argymhelliad 12 yn benodol, byddem yn rhagweld y byddai canolfannau dysgu'r blynyddoedd cynnar yn hwyluso'r gwaith o rannu arfer da ar effeithiau amddifadedd, yn enwedig o ran dysgu o leoliadau Dechrau'n Deg. Rydym yn gofyn am safbwyntiau ar yr hyn y dylai'r hyfforddiant hwn ei gynnwys o bosibl, a'r dull mwyaf effeithiol ar gyfer darparu.

**Cwestiwn 12a:** A fyddai hyfforddiant ar effaith anfantais o fudd i ymarferwyr ac athrawon y Cyfnod Sylfaen?

**Cwestiwn 12b:** Pwy fyddai yn y sefyllfa orau i ddatblygu a darparu'r hyfforddiant hwn?

Mae hyfforddiant ar gefnogi plant ag AAA yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru hefyd. Mae ymarfer datblygu'r gweithlu ar waith ar draws y gweithlu addysg cyffredinol yng Nghymru gan ganolbwyntio ar gynyddu gallu athrawon ac ysgolion ar y lefel gyffredinol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc ag AAA yn well, gan gynnwys y rhai yn y blynyddoedd cynnar. Yn dilyn canlyniad yr ymarfer hwn, ein nod fydd cyflwyno hyfforddiant, canllawiau a deunyddiau sy'n gysylltiedig ag AAA yn 2015 a fydd yn helpu i gynyddu hyder a sgiliau pawb sy'n darparu cefnogaeth i blant ag AAA. Dylai hyn, ar y cyd â'n datblygiadau ar gyfer DPP aelodau staff addysgu, arwain at fynediad cynyddol at ddarpariaeth briodol yn lleol a helpu i wella safonau ar gyfer rhai o'n dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed.

**Datblygu sgiliau trwy gymwysterau**

Dangosir ein 'dull cam wrth gam' arfaethedig o uwchsgilio yn Ffigur 5 (gweler tudalen 45). Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod rhaglenni priodol o gefnogaeth ar waith i alluogi unigolion a lleoliadau i uwchsgilio cyn y newidiadau arfaethedig i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a amlinellwyd yn yr adran flaenorol. Mae'r dull hwn hefyd yn dangos nad yw ein huchelgeisiau ar gyfer y sector hwn yn dod i ben gyda phob ymarferydd yn ennill cymhwyster Lefel 3 perthnasol – mae'r llwybr datblygu arfaethedig yn ymestyn y tu hwnt i hyn i gymwysterau lefel uwch ac i swyddogaethau arweinyddiaeth sy'n cydnabod lefel uchel o sgiliau a phrofiad.

**Cwestiwn 13:** A ydych yn cytuno ei bod hi'n bosibl y gallai'r 'dull cam wrth gam' arfaethedig o uwchsgilio helpu i ddiwallu awydd gweithlu y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae i ddysgu a datblygu ymhellach?

**Ffigur 5: Dull cam wrth gam o uwchsgilio ar gyfer gweithlu’r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae**

**Dull cam wrth gam o uwchsgilio**

| | Ymarferydd cynorthwyol | Ymarferydd | Ymarferydd uwch | Arweinydd |
|---|---|---|---|---|
| Heb gymhwyso | → Lefel 2 | → Lefel 3 | → Lefel 5 | → Lefel gradd |
| | Cwrs dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaeth wedi ei gefnogi gan DPP. I’w gyflawno o fewn tair blynedd. | Cwrs dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaeth wedi ei gefnogi gan DPP. I’w gyflawni o fewn tair blynedd. | Cwrs dysgu seiliedig ar waith neu brentisiaeth lefel uwch wedi ei gefnogi gan DPP. | Cymhwyster dysgu seiliedig ar waith Lefel 6 newydd. |

Ein disgwyliad yw y bydd y gweithlu â chymwysterau uwch yr ydym yn gweithio tuag ato mewn sefyllfa well i ddarparu addysg a gofal o ansawdd uchel i blant ifanc. Pwysleisiodd yr Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen bod ansawdd ymarferydd yn bwysicach na nifer yr oedolion sy'n bresennol mewn lleoliad.

Awgrymodd yr adroddiad hwn y **gellid addasu cymarebau argymelledig oedolion i blant** mewn dosbarthiadau penodol mewn ysgolion heb effeithio ar ansawdd.[33] Argymhellodd yr awdur y dylid ail-fuddsoddi unrhyw gostau a arbedwyd o newid cymarebau mewn hyfforddi a datblygu'r gweithlu i sicrhau gweithlu â chymwysterau uwch. Nodir yr argymhelliad yn llawn isod:

> Argymhelliad 18: Adolygu'r gymhareb oedolion i blant gyfredol mewn dosbarthiadau derbyn. Ar hyn o bryd mae'n 1:8. Cytunodd staff ysgolion cynradd, cynghorwyr ac arolygwyr y gellid ei chynyddu i 1:10 heb effeithio ar ansawdd. Fodd bynnag, efallai y bydd angen i rai ysgolion wneud cais am eithriad lle, er enghraifft, y'u lleolir mewn ardaloedd gwledig iawn neu lle mae ganddynt nifer sylweddol o blant ag anghenion ychwanegol fel AAA neu Gymraeg/Saesneg oherwydd ni fyddai'n ymarferol cynyddu'r gymhareb.

Yn ein hinsawdd bresennol o gyfyngiadau ariannol, gallai addasu cymarebau argymelledig y Cyfnod Sylfaen mewn dosbarthiadau derbyn fel yr amlinellir uchod ein galluogi i gynnig mwy o gefnogaeth ar gyfer datblygu a hyfforddi'r gweithlu ar draws y Cyfnod Sylfaen. Hoffem wahodd sylwadau ar y newid arfaethedig hwn i gymarebau, ei effaith debygol a manteision yr adnoddau ychwanegol a fyddai'n cael eu rhyddhau a'u defnyddio i gefnogi gwaith datblygu'r gweithlu.

**Cwestiwn 14:** A ydych yn cytuno â'r argymhelliad hwn i newid y gymhareb oedolion i blant mewn dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion?

**Sgiliau Hanfodol**

Fel sail i lefelau uwch o wybodaeth am ddysgu a datblygiad plant, rydym yn dymuno i ymarferwyr deimlo'n hyderus yn eu sgiliau cyfathrebu a rhifedd eu hunain er mwyn annog llythrennedd a rhifedd ymhlith y plant y maent yn gofalu amdanynt. Rydym yn cynnig y dylid ystyried cryfhau sgiliau hanfodol yn y sector fel blaenoriaeth. Ein dyhead fyddai i bob ymarferydd yn y sector feddu ar radd C TGAU yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf) neu'r Saesneg a Mathemateg, ond rydym yn cydnabod bod hwn yn uchelgais mwy hirdymor. Dylai ymarferwyr nad yw'r cymwysterau hyn ganddynt fanteisio ar gefnogaeth sydd ar gael trwy Sgiliau Hanfodol Cymru **i ennill cymhwyster Lefel 2 cyfatebol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif** (diwygiwyd a diweddarwyd ar gyfer darpariaeth o fis Medi 2015) tra'n gweithio yn y sector. Awgrymwn y dylai ennill y cymwysterau hyn o fewn cyfnod penodedig o amser fod

[33] Archwiliad o'r Cyfnod Sylfaen, t. 35.

yn rhan o'r gofynion DPP gorfodol ar gyfer y gweithlu ac y dylent gael eu nodi yn yr egwyddorion DPP newydd ar gyfer y sector cyfan.

O fis Medi 2015, rhagwelir y bydd cymhwyster newydd Bagloriaeth Genedlaethol Cymru (Lefel 2) yn cynnig y cyfle i newydd-ddyfodiaid i'r gweithlu yn y dyfodol ddangos cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd. Ar hyn o bryd, mae rhaglenni prentisiaeth yn cynnwys gofyniad ar gyfer caffael Sgiliau Hanfodol ar lefel sy'n cyfateb i Fanyleb Safonau Prentisiaeth Cymru, sy'n asesiad o sgiliau hanfodol. Gan fod fframweithiau prentisiaeth yn cael eu hadolygu gan y sector, byddem yn awgrymu mai Lefel 2 ddylai fod y safon ofynnol ar gyfer yr holl sgiliau hanfodol sydd wedi eu hymsefydlu ym mhrentisiaethau'r blynyddoedd cynnar a gofal plant ar Lefel 3.

**Cwestiwn 15a:** A ydych yn cytuno bod TGAU Gradd C, neu gymhwyster cyfwerth, yn lefel ofynnol briodol o sgiliau hanfodol ar gyfer aelodau'r gweithlu blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae?

**Cwestiwn 15b:** A ddylai fod yn ofynnol i unigolion feddu ar y lefelau hyn o sgiliau pan fyddant yn ymuno â'r sector (yn hytrach na'u hennill wrth weithio, o fewn cyfnod penodol o amser)?

**Sgiliau Cymraeg**

Er mwyn **cynyddu hyder ymarferwyr wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn** lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant **cyfrwng Saesneg**, byddwn yn ceisio ehangu'r cwrs Cymraeg cyflwyniadol llwyddiannus a arweinir gan y sector, 'Un, dai, tri – hwyl a sbri'. Mae'r cwrs chwe wythnos hwn ac adnoddau rhyngweithiol ategol yn canolbwyntio ar Gymraeg sylfaenol a gweithgareddau y gellir eu defnyddio wrth weithio gyda phlant ifanc.

Bydd cefnogaeth yn parhau i fod ar gael i'r rhai sy'n gweithio yn y sector a gynhelir i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach drwy'r Cynllun Sabothol Cenedlaethol, ac mae Geiriau Bach yn cynnig cwrs Cymraeg achrededig ar gyfer ymarferwyr mewn lleoliadau nas cynhelir.

Gall ymarferwyr mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg gael mynediad at gefnogaeth hefyd i uwchsgilio i Ddiploma Lefel 3 mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg ac a ddarperir gan Cam Wrth Gam. Hefyd, gall ymarferwyr y blynyddoedd cynnar fanteisio ar gyrsiau Cymraeg i Oedolion, yn amrywio o lefelau dechreuwyr i uwch, a gynigir mewn lleoliadau amrywiol i unrhyw un sy'n dymuno datblygu eu sgiliau Cymraeg.

**Cwestiwn 16:** A ydych yn cytuno y byddai cefnogaeth iaith Gymraeg, fel a amlinellir yn y cynllun drafft hwn, yn helpu i hyrwyddo mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau/ysgolion?

## Crynodeb

Er mwyn rhoi gweithlu'r blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae mewn sefyllfa well i ddarparu gofal o ansawdd uchel i blant ifanc, rydym yn cynnig:

- comisiynu llwybr datblygu ac egwyddorion DPP ar gyfer y sector
- ystyried a gwerthuso system bosibl o gofrestriad proffesiynol ar gyfer y sector nas cynhelir a ffordd o fonitro portffolios DPP unigol
- annog dull cam wrth gam o uwchsgilio trwy gymwysterau
- cryfhau sgiliau hanfodol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, gan flaenoriaethu'r rhai nad oes ganddynt radd C TGAU yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf/y Saesneg a Mathemateg
- ehangu'r ddarpariaeth o gwrs Cymraeg cyflwyniadol llwyddiannus (lleoliadau cyfrwng Saesneg)
- cefnogi'r broses o uwchsgilio sgiliau Cymraeg

## Trosolwg o’r cynigion a’r llinell amser

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynigion a gyflwynir yn y cynllun drafft, y canlyniadau a ragwelir ac mae'n nodi amserlen ar gyfer rhoi’r amserlen ar waith. Bydd yr amserlen hon yn cael ei datblygu ymhellach yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad ar y cynllun drafft 10 mlynedd.

| Cynnig | Canlyniad a Ragwelir | Dyddiad gweithrediad arfaethedig |
|---|---|---|
| **Arweinyddiaeth** | | |
| 1. Sefydlu grŵp gweithlu lefel uchel i fonitro’r dull o weithredu a chyflenwi’r cynllun gweithlu 10 mlynedd. | Goruchwyliad strategol ar gyfer cyflenwi'r cynllun 10 mlynedd, yn ogystal â darparu atebolrwydd ar gyfer cynnydd. | Ebrill 2015 |
| 2. Galw ar gonsortia i amlinellu eu swyddogaeth o oruchwylio’r Cyfnod Sylfaen a sut mae hyn yn cefnogi’r agenda blynyddoedd cynnar ehangach, ac adolygu’r wybodaeth fonitro ar gyfer cyllido’r Cyfnod Sylfaen. | Gwell dealltwriaeth gan y gweithlu o’r Cyfnod Sylfaen a sut mae wedi'i ymgorffori yn y sector a gynhelir a’r sector nas cynhelir. | Erbyn diwedd 2015 |
| 3. Comisiynu ymarfer mapio o’r gefnogaeth a’r hyfforddiant sydd ar gael ledled Cymru. | Bylchau yn yr hyfforddiant a'r ddarpariaeth wedi’u nodi ac anghenion hyfforddi wedi’u bodloni. | Erbyn diwedd 2015 |
| 4. Cefnogi datblygiad Canolfannau Dysgu'r Blynyddoedd Cynnar trwy gyfnod prawf cychwynnol. | Datblygu rhwydwaith hunan-wella i ymarferwyr yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. Mecanwaith ar gyfer rhannu arferion da a sicrhau cyfleoedd ar gyfer gwaith ar y cyd. | 2015–17 |
| 5. Datblygu Swyddogaeth Ymarferydd Uwch y Blynyddoedd Cynnar (Lefel 5) i gydnabod aelodau staff mwy cymwysedig a phrofiadol. | Canolfannau/Lleoliadau Dysgu yn elwa ar wybodaeth, sgiliau a phrofiad lefel uwch yr Ymarferydd Uwch. | 2015–17 |
| 6. Datblygu cymhwyster a rhaglen gefnogaeth dysgu seiliedig ar waith Lefel 6 ar gyfer darpar arweinwyr yn y sector. | Mwy o gydraddoldeb â phroffesiynau lefel graddedig eraill yn y gweithlu plant ehangach. Canlyniadau gwell i blant o ganlyniad i arweinyddiaeth o ansawdd uchel. | Cyfnod cwmpasu: 2014–15<br>Gweithredu: Medi 2016 |

| Denu newydd-ddyfodiaid o ansawdd uchel | | |
|---|---|---|
| 1. Gwella ansawdd cyngor gyrfaoedd a chynyddu’r ddarpariaeth o sesiynau gwybodaeth cyn-ymuno. | Mwy o ymwybyddiaeth am heriau a buddion gyrfa yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae. | O 2015 ymlaen |
| 2. Mapio a hyrwyddo llwybrau gyrfa i’r gweithlu plant ehangach. | Rolau yn y blynyddoedd cynnar, gofal plant a chwarae yn cael eu hystyried fel 'cam cyntaf' at broffesiynau eraill sy'n ymwneud â gweithio gyda phlant ac at lwybr gyrfa ar gyfer dysgu a datblygu. | Erbyn diwedd 2015 |
| 3. Cefnogi’r defnydd o Fframwaith Sefydlu a phecyn adnoddau Cyngor Gofal Cymru ar gyfer lleoliadau newydd. | Anghenion hyfforddi a datblygu wedi’u nodi ac yn cael eu bodloni yn gynnar drwy broses ymsefydlu strwythuredig. Hyrwyddo adnoddau presennol a chanllawiau yn well ar gyfer rheolwyr ac ymarferwyr. | O 2015 ymlaen |
| 4. Denu ymgeiswyr lefel gradd trwy sicrhau y gall graddedigion fodloni’r asesiad gofynnol o gymhwysedd i ymarfer. | Bydd y sector yn elwa lefel uchel o wybodaeth academaidd a diddordeb y rheini sydd wedi ymgymryd ag astudiaeth lefel cwrs gradd. Bydd graddedigion y blynyddoedd cynnar yn fwy cyflogadwy ar ôl bodloni’r asesiad o gymhwysedd i ymarfer. | Medi 2016 |
| 5. Defnyddio cymwysterau Lefel 2 fel y safon ofynnol ar gyfer Ymarferwyr Cynorthwyol (y rhai sy’n gweithio dan oruchwyliaeth yn y sector nas cynhelir). | Bydd gan yr holl ymarferwyr y lefel ofynnol hon o hyfforddiant, neu fe fyddant yn gweithio tuag ati, gan sicrhau gweithlu sy'n datblygu'n barhaus. | 2020 |
| 6. Diwygio’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn nodi mai Lefel 3 yw’r cymhwyster lefel ymarferydd disgwyliedig i bob aelod o staff sydd wedi’u cynnwys yn y cymarebau (wedi’i gyflwyno gam wrth gam dros 10 mlynedd). | Bydd anelu yn raddol at safon uwch o ymarfer yn arwain at wella canlyniadau'r plant a chefnogi’r gwaith o broffesiynoli’r sector hwn. | Newidiadau i Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn 2020 a 2025 |

| **Gwella sgiliau a safonau yn y gweithlu presennol** | | |
|---|---|---|
| 1. Comisiynu llwybr datblygu ac egwyddorion datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer y sector. | Eglurder ar lwybrau cynnydd ac amcanion allweddol dysgu proffesiynol. | Erbyn diwedd 2015 |
| 2. Ystyried a gwerthuso system bosibl o gofrestriad proffesiynol ar gyfer y sector nas cynhelir a ffordd o fonitro portffolios DPP unigol. | Dysgu wrth gyflwyno proses i gofrestru'r gweithlu i'r sector a gynhelir, ac ystyried effaith a buddiannau unrhyw broses debyg i'r sector nas cynhelir. | 2016–18 |
| 3. Annog dull cam wrth gam o uwchsgilio trwy gymwysterau. | Gweithlu sy'n dysgu ac sy'n datblygu'n barhaus, lle mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth i ennill cymhwyster Lefel 3 perthnasol ac i ddatblygu y tu hwnt i hyn, naill ai drwy arbenigo ymhellach ar eu lefel bresennol, neu gael y cyfle i ennill cymwysterau lefel uwch. | O Ebrill 2015 |
| 4. Cryfhau sgiliau hanfodol, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, gan flaenoriaethu'r rhai nad oes ganddynt radd C TGAU Mathemateg a Chymraeg/Saesneg. | Ymarferwyr mewn sefyllfa well i gefnogi sgiliau datblygu llythrennedd a rhifedd y plant. | 2015–17 |
| 5. Ehangu'r ddarpariaeth o gwrs Cymraeg cyflwyniadol llwyddiannus (lleoliadau cyfrwng Saesneg). | Ymarferwyr yn fwy hyderus wrth ddefnyddio Cymraeg sylfaenol o ddydd i ddydd, a thrwy wneud hynny yn cefnogi datblygiad iaith Gymraeg y plant. | Erbyn diwedd 2015 |
| 6. Cefnogi'r broses o uwchsgilio sgiliau iaith Gymraeg. | Drwy wella sgiliau iaith Gymraeg yr ymarferwyr, bydd gan rieni/gofalwyr ddewis gwell o ran darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg neu Saesneg. | O Ebrill 2015 |